



Astudiaeth Addasu i'r Hinsawdd ym Myd Amaeth – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid



Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Mentera gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid amaethyddol ynglŷn ag addasu i'r hinsawdd ym myd amaeth yng Nghymru. Cyflawnwyd yr astudiaeth ar ffurf cyfres o weithdai gyda 63 o ffermwyr ac 8 cynrychiolydd o'r diwydiant, a luniwyd ar ffurf gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth i gefnogi dysgu gan gymheiriaid a myfyrio ar y cyd ar newid mewn busnes, yn hytrach nag ymarfer ymchwil echdynnol yn unig. Bu Mentera yn cydweithio â Phrifysgol Bangor ar ddyluniad y gweithdai, gyda Phrifysgol Bangor yn arwain ar y gwaith o ddadansoddi data ansoddol. Mae'r canfyddiadau'n ategu adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ochr yn ochr gan IBERS, Prifysgol Aberystwyth.

Ar draws pob un o'r gweithdai, roedd cyfranogwyr yn adrodd yn gyson fod amodau'r hinsawdd yng Nghymru'n dod yn fwy eithafol, yn anoddach eu rhagweld, ac yn fwy amrywiol. Gwelwyd gaeafau gwlypach a mwynach, hafau poethach a sychach, mwy o stormydd a newid mewn patrymau tymhorol yn eang. Er bod cyfanswm y glawiad yn aml yn cael ei ystyried yr un fath i bob pwrpas, roedd glawiad yn cael ei ddisgrifio'n aml yn fwy dwys ac wedi'i grynhoi dros gyfnodau byrrach. Roedd ffermwyr yn adrodd bod y newidiadau hyn eisoes yn cael effaith ddiriaethol ar gyflwr y tir, seilwaith a phenderfyniadau rheoli.

Disgrifiwyd bod amrywioldeb y tywydd yn effeithio ar bob agwedd ar weithredoedd ar y fferm. Roedd cyfranogwyr yn amlygu cyfnodau byrrach ar gyfer pori, gwasgaru gwrtaith a gwaith maes; mwy o ddiraddiad pridd o ganlyniad i ddirlawnder a chywasgiad; mwy o ddibyniaeth ar siediau da byw; a chostau cynyddol ar gyfer seilwaith a rheolaeth. Nodwyd bod argaeledd dŵr yn bwysau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd nad oeddent wedi'u heffeithio yn y gorffennol, gyda ffynhonnau a thyllau turio i'w gweld yn llai dibynadwy yn ystod cyfnodau sych.

Roedd cyfranogwyr hefyd yn adrodd cynnydd mewn pwysau clefydau a phlâu, gan gynnwys tymhorau pryfed hwy, mwy o faich parasitiaid a dyfodiad clefydau nad oeddent yn gyffredin yng Nghymru yn y gorffennol. Roedd newidiadau i lystyfiant – yn enwedig mewn ardaloedd ucheldir ac ymylol – yn gysylltiedig ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a newidiadau mwy hirdymor o ran rheolaeth a pholisi, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y stoc a llai o reoli tir gweithredol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llawer o ffermwyr yng Nghymru eisoes yn addasu, yn bennaf drwy newidiadau graddol, ymarferol wedi'u harwain gan y busnes yn hytrach na thrawsnewid systemau'n gyfan gwbl. Roedd ymatebion addasol a adroddwyd yn gyffredin yn cynnwys addasu cyfraddau stocio, bridiau ac amseroedd pori; rhoi mwy o bwyslais ar iechyd y pridd a gwytnwch glaswelltir; newid strategaethau tyfu cnydau ac ailhadu; buddsoddi mewn seilwaith dŵr a phori; a defnyddio coed a gwrychoedd yn ddetholus i wella cysgod a gwytnwch y fferm. Roedd penderfyniadau'n cael eu

dylanwadu'n gryf gan y math o dir, graddfa'r fferm, argaeledd llafur, hyfywedd economaidd ac amgylchiadau teuluol, gyda ffermwyr yn pwysleisio bod angen i addasiadau effeithiol fod yn benodol ar gyfer y fferm, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddulliau unffurf.

Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn rhagweld y byddent yn parhau ar hyd llwybrau addasu presennol, gan ganolbwyntio ar enillion o safbwynt effeithlonrwydd, mireinio arferion rheolaeth a buddsoddi dethol. Er bod nifer yn gallu cyfleu cynlluniau dros y pum mlynedd nesaf, roedd tipyn o ansicrwydd y tu hwnt i'r cyfnod hwn o ganlyniad i natur anwadal y farchnad, natur anrhagweladwy'r hinsawdd, cyfeiriad polisi a phwysau rheoleiddio.

Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n dangos bod ffermwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd o fewn cyfyngiadau rhedeg busnesau hyfyw. Fodd bynnag, mae'r capasiti i addasu'n amrywio ac yn cael ei siapio gan ffactorau economaidd, strwythurol a pholisi, gan amlygu pwysigrwydd fframweithiau polisi hyblyg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth a chynghor y gellir ymddiried ynddynt.

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Rhestr Ffigurau	5
Rhestr Tablau	6
1. Cyflwyniad	7
2. Amcanion	9
3. Methodoleg	10
4. Canfyddiadau	19
5. Casgliadau a Goblygiadau	51
6. Cyfeiriadau	52
Atodiadau	54

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1. Trosolwg o Fodel Segmentu Llywodraeth Cymru	10
Ffigur 2. Lleoliadau a) gweithdai wyneb i wyneb, gan gynnwys y gweithdy peilot (marcwyr gwyn), a b) lleoliadau cyfranogwyr (ardaloedd oren)	14
Ffigur 3. Dadansoddiad o'r clwstwr cyfranogwyr	19
Ffigur 4. Dadansoddiad o'r clwstwr ffermwyr	19

Rhestr Tablau

Tabl 1. Demograffeg a nodweddion ffermydd allweddol y cyfranogwyr a gynrychiolwyd ar draws y gweithdy peilot a'r gweithdai ffermwyr	13
Tabl 2. Prif gwestiynau'r gweithdai a pherthnasedd i'r amcanion	15
Tabl 3. Effeithiau cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cynlluniau penodol ar y bywyd gwylt a'r fioamrywiaeth a arsylwyd	26
Tabl 4. Cynnydd mewn clefydau a phlâu a welwyd gan gyfranogwyr, ac enghreifftiau o reolaeth clefydau ar ffermydd	27
Tabl 5. Prif bryderon a rhwystrau ar gyfer y dyfodol	44

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) argyfwng hinsawdd yn 2019 o ganlyniad i dystiolaeth wyddonol gynyddol o heriau'r newid yn yr hinsawdd ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)). Gosodwyd ymdrechion sylweddol i ddatgarboneiddio yn y ddwy gyllideb garbon. Fodd bynnag, mae cynhesu sylweddol eisoes yn digwydd, ac mae'r angen i addasu i'r newid yn yr hinsawdd bellach yn cael ei gydnabod. Mae heriau'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys llifogydd, sychder a thymheredd eithafol, ac maent yn effeithio'n sylweddol ar arferion ffermio – yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Rhagwelir y bydd yr effaith yn dwysáu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch gwytnwch amaethyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, neu sut allai ffermwyr ymateb yn y dyfodol, er gwaetha'r ffaith bod amaethyddiaeth yn defnyddio tir sylweddol yng Nghymru. Yn ei [adroddiad cynnydd yng Nghymru yn 2023](#), roedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (2023a) yn nodi bod hyn yn fwlch sylweddol mewn tystiolaeth. Mewn ymateb, mae [Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru](#) (Llywodraeth Cymru, 2024) yn ymrwymo i adolygu'r sylfaen dystiolaeth ar senarios hinsawdd tebygol a'r strategaethau addasu sydd ar gael ar gyfer ffermio yng Nghymru

Mae [Deddf Amaethyddiaeth \(Cymru\) 2023](#) (Llywodraeth Cymru, 2023) yn ymgorffori lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn gyfreithiol fel un o'i hamcanion, yn seiliedig ar gyflawni Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Mae'r amcanion SLM yn sylfaen i'r [Cynllun Ffermio Cynaliadwy](#) (Llywodraeth Cymru, 2025), gyda phwyslais ar gefnogi ffermwyr Cymru i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy gan hefyd fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'r elfennau sylfaenol o arfer da i alluogi systemau ffermio gwydn yn cael eu hamlinellu yn Haen Sylfaenol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r haenau Dewisol a Chydweithredol yn gofyn am gamau gweithredu mwy penodol, gan alluogi perchnogion tir i gydweithio i sicrhau newidiadau eang. Gallai canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn fod o fudd penodol wrth barhau i ddatblygu'r haenau hyn.

Er bod gwaith ymchwil helaeth wedi'i wneud ar benderfyniadau ffermydd o safbwynt mabwysiadu cynlluniau/arferion amgylcheddol a newidiadau ehangach i arferion/busnesau (e.e. Rose et al., 2018), ychydig o ystyriaeth a geir o ymgysylltiad ffermwyr gyda lliniaru'r newid yn yr hinsawdd (Jebari et al., 2024), a llai fyth o waith ymchwil ar gael yn targedu sut mae ffermwyr yn *addasu* i'r newid yn yr hinsawdd – yn enwedig yng nghyd-destun Cymru. Roedd gwaith ymchwil ledled y DU yn dangos bod >50% o ffermwyr yn mabwysiadu rhywfaint o fesurau lliniaru nwyon tŷ gwydr (Jebari et al., 2024). Gall rhai mesurau lliniaru hefyd gefnogi addasu (gan gynnig enillion i bawb). Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn pwysleisio pwysigrwydd deall buddion ar y cyd, gan fod tystiolaeth fod ffermwyr yn mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu nid ar gyfer nodau sero net a newid yn yr hinsawdd yn bennaf, ond yn hytrach er mwyn sicrhau'r buddion ehangach i'w busnesau (McNicol et al., ar y gweill). Mae [Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU \(2023b\)](#) wedi galw am fwy o fuddsoddiad mewn monitro, arloesi a hyfforddiant i gefnogi

gwytnwch ym myd amaeth sy'n effeithio ar gyflawni ystod o ganlyniadau nwyddau cyhoeddus. Er mwyn datblygu atebion effeithiol ar gyfer newid, mae deall y rhwystrau a wynebîr gan ffermwyr a'u cymhelliant yn hanfodol. Nod y gwaith ymchwil hwn yw mynd i'r afael â'r heriau a'r anghenion hyn, gan adeiladu ar fewnwelediad presennol ynghylch penderfyniadau ffermwyr yn ehangach (fel y trafodir ar Dudalen 45) a chymhwyso hyn i'r bwlch mewn gwaith ymchwil allweddol.

Comisiynwyd Mentera gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gweithdai i gasglu barn rhanddeiliaid (ffermwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant) ynghylch camau gweithredu addasu i'r hinsawdd. Cafodd Prifysgol Bangor ei isgcontractio gan Mentera ar gyfer agwedd dadansoddi data'r astudiaeth.

2. Amcanion

Amcanion yr Astudiaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar Addasu i'r Hinsawdd ym Myd Amaeth, fel yr amlinellir yn y fanyleb, oedd deall y canlynol -

- A. Newidiadau mewn arferion ffermio dros yr 20–50 mlynedd diwethaf a deall y ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau hynny
- B. Ystyriaethau ffermwyr ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys pa mor bell i'r dyfodol y mae ffermwyr yn cynllunio ar ei gyfer, ac a yw'r tywydd yn ffactor
- C. Pa newidiadau mae ffermwyr wedi'u gwneud i arferion ffermio mewn ymateb i'r newid mewn amodau hinsoddol a threfn y newidiadau hyn yn ymarferol o'u cymharu â ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch dyfodol busnesau fferm
- D. Safbwynt ffermwyr ar faterion yn ymwneud â'r hinsawdd yn eu hardaloedd lleol a p'un a oes unrhyw faterion hinsawdd rhanbarthol a allai effeithio ar wytnwch y diwydiant ffermio yn y dyfodol (h.y., risg o ran cyflenwad dŵr, diffyg cysgod, rheoli coedwigoedd a choetiroedd ac ati)
- E. Sut mae'r diwydiant ffermio'n credu y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru, arferion ffermio neu ddefnydd tir, ac a yw ffermwyr yn ystyried dadansoddiad gan y diwydiant/y byd academaidd ai peidio
- F. Darparu dadansoddiad o effeithiau posibl y newidiadau hyn mewn arferion fferm ar gyfer busnesau fferm.

3. Methodoleg


3.1 Recriwtio

3.1.1 Gweithdy Peilot

Cynhaliwyd gweithdy peilot cyn dechrau ar y gweithdai gyda ffermwyr er mwyn asesu cynnwys a strwythur y gweithdy, gan gynnwys y cwestiynau, amseru a thechnegau hwyluso. Bu aelodau staff Mentera sy'n cymryd rhan weithredol mewn busnes ffermio y tu hwnt i'w swydd o ddydd i ddydd yn cymryd rhan yn y gweithdy peilot. Cwblhaodd pob ffermwr holiadur sgrinio (manyllion pellach isod) i gasglu gwybodaeth allweddol cyn cymryd rhan yn y gweithdy peilot.

3.1.2 Gweithdai i Ffermwyr

Lansiwyd cyfnod agored i fynegi diddordeb, gan ganiatáu ffermwyr o Gymru i gofrestru eu parodrwydd i gymryd rhan yn yr astudiaeth drwy gwblhau holiadur sgrinio. Roedd yr holiadur yn darparu data demograffig allweddol, gan gynnwys mentrau ffermio, math o dir, graddfa a lleoliad, yn ogystal â chwestiynau Model Segmentu Llywodraeth Cymru (Atodiad A). Roedd y cwestiynau a nodir yn Atodiad A yn caniatáu ar gyfer adnabod y mathau o ffermwyr (h.y. C/Y/M/R/U) yn ôl clystyrau Model Segmentu Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y fanyleb. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r Model, ynghyd ag eglurhad o'r clystyrau.



Ffigur 1. Trosolwg o Fodel Segmentu Llywodraeth Cymru.

Clwstwr C – 35%

Yn tueddu i fod yn hynod agored i ffynonellau gwybodaeth a chyngor allanol, trwy ffermwyr eraill a'r rhyngwyd. Yn debygol o gredu bod cydweithio â ffermwyr eraill yn gwella rhedeg eu fferm, a bod cymdeithasu ag eraill hefyd yn bwysig. Tueddu i flaenoriaethu ansawdd bywyd da dros y posibilrwydd o wneud y mwyaf o incwm o'u fferm. Yn debygol o fod ag agweddau cadarnhaol cryf tuag at yr amgylchedd. Hefyd yn tueddu i gofleidio'r cyfle i ennill sgiliau newydd a defnyddio technoleg i helpu i reoli eu daliad yn fwy effeithiol.

Clwstwr Y – 18%

Yn tueddu i fod yn annibynnol, yn llai tueddol o gydweithio â ffermwyr eraill neu wneud yr amser i ymgysylltu â nhw mewn lleoliad cymdeithasol. Yn debygol o fod ag agweddau cadarnhaol cryf tuag at yr amgylchedd ac yn cytuno bod ansawdd bywyd yn bwysig o'i gymharu â gwneud y mwyaf o incwm. Yn gyffredinol, yn tueddu i fod â diddordeb mewn dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallent eu cymhwyso i'w fferm. Hefyd yn debygol o fod eisiau defnyddio technolegau newydd ar eu fferm.

Clwstwr M – 23%

Tueddu i fod yn fwy traddodiadol – bod yn llai agored i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd, neu gymhwyso technolegau newydd i helpu i reoli eu fferm. Yn annhebygol o geisio gwybodaeth o ffynonellau allanol, fel y rhyngwyd neu ffermwyr eraill. Tueddu i beidio â chysylltu â ffermwyr eraill, yn gymdeithasol neu'n broffesiynol. Tueddu i ddal agweddau cadarnhaol cryf tuag at yr amgylchedd. Tueddu i roi llawer mwy o bwyslais ar ansawdd bywyd na gwneud y mwyaf o incwm o'u daliad.

Clwstwr R – 13%

Yn tueddu i beidio â blaenoriaethu ansawdd bywyd da yn hytrach na gwneud y mwyaf o'r incwm o'u daliad. Ddim yn tueddu i gydweithio ag eraill i helpu i wella rhedeg eu fferm, ond yn tueddu i werthfawrogi'r amser a dreulir yn cymdeithasu â ffermwyr eraill. Yn annhebygol o fod ag agweddau cadarnhaol cryf tuag at yr amgylchedd naturiol. Tueddu i beidio â chwilio am wybodaeth, sgiliau neu dechnolegau newydd y gellir eu defnyddio i redeg eu fferm yn effeithiol.

Clwstwr U – 11%

Tueddu i ddadflaenoriaethu ansawdd bywyd da o blaid gwneud y mwyaf o incwm eu fferm. Tueddu i ddal agweddau gwan tuag at yr amgylchedd. Tueddu i gydweithio â ffermwyr eraill ond yn tueddu i beidio â gwneud amser i gymdeithasu. Tueddu i fod yn awyddus iawn i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallent eu cymhwyso i'w fferm.

Hefyd yn tueddu i fod â diddordeb cymharol mewn mabwysiadu technolegau ffermio wrth iddynt ddod ar gael.

Dadansoddiad: C 35% | M 23% | Y 18% | R 13% | U 11%

Cafodd y cyfnod datgan diddordeb ei hyrwyddo drwy lwybrau ymgysylltu amrywiol Mentera, gan gynnwys drwy rwydweithiau, partneriaethau a sefydliadau, sianeli cyfathrebu presennol, yn ogystal â lledaenu'r neges ar lafar mewn digwyddiadau amaethyddol a thrwy gysylltiadau â'r diwydiant. Derbyniwyd cyfanswm o 79 cais.

3.1.3 Gweithdy i'r Diwydiant

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r diwydiant sy'n gweithio gyda ffermwyr i fynychu'r gweithdy i'r diwydiant (gwahoddwyd 17 cynrychiolydd gan gynnwys Undebau Ffermio, Hybu Cig Cymru, Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Parciau ac Ymddiriedolaethau Cenedlaethol, milfeddygon, cyflenwyr porthiant, proseswyr cig a llaeth). Cafodd pob sefydliad ei gyfyngu i un cyfranogwr er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr a chytbwys.

3.2 Casglu Data

3.2.1 Amlinelliad o ddarpariaeth y gweithdai

Cynhaliwyd un gweithdy peilot (wyneb yn wyneb), saith gweithdy i ffermwyr (chwe gweithdy wyneb yn wyneb ledled Cymru, un ar-lein), ac un gweithdy i'r diwydiant (ar-lein) yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2026. Cynhaliwyd pob un o'r gweithdai dros gyfnod o oddeutu dwy awr a hanner.

Cynhaliwyd y gweithdy peilot yn ddwyieithog gan staff Mentera a oedd yn gyfrifol am y gweithdai i ffermwyr a'r diwydiant, gyda thîm ehangach y prosiect (staff Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru) hefyd yn bresennol i arsylwi ac i ddarparu adborth ar y ddarpariaeth. Gwnaed mân newidiadau i gwestiynau allweddol y gweithdy yn dilyn y gweithdy peilot (h.y., i sicrhau bod cyfranogwyr yn canolbwyntio ar y darlun ehangach yn ystod rhan gyntaf y gweithdy cyn ystyried eu harferion ar lefel fferm, fel y manylir yn ddiweddarach).

Darparwyd y gweithdai i ffermwyr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddibynnu ar ddewis y cyfranogwyr. Darparwyd dau o'r gweithdai wyneb yn wyneb (gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Cymru) trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynhaliwyd gweddill y gweithdai ar gyfer ffermwyr a'r diwydiant yn ddwyieithog. Derbyniodd cyfranogwyr a fu'n mynychu'r gweithdai wyneb yn wyneb i ffermwyr daleb o £50 ar gyfer gwerthwr amaethyddol o'u dewis, a derbyniodd y rhai a fu'n mynychu'r gweithdai ar-lein i ffermwyr daleb o £25. Cynigiwyd y talebau i gydnabod eu hymrwymiad o ran amser a'r costau teithio a oedd yn gysylltiedig â mynychu'r gweithdy.

3.2.2 Sampl

Yn dilyn adolygiad o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod mynegi diddordeb, cynigiwyd cyfle i'r holl ymgeiswyr (cyfanswm o 79) fynychu gweithdy wyneb yn wyneb yn y lle cyntaf, gyda'r rhai nad oedd yn gallu mynychu wyneb yn wyneb yn cael cynnig lle yn y gweithdy ar-lein. Mynychodd cyfanswm o 55 o gyfranogwyr y gweithdai i ffermwyr (49 yn y gweithdai wyneb yn wyneb a 6 yn y gweithdy ar-lein), gyda'r nifer ym mhob gweithdy'n amrywio rhwng 6 a 12 cyfranogwr.

Mynychodd cyfanswm o wyth ffermwr o wahanol ddemograffig a systemau ffermio (Tabl 1) y gweithdy peilot. Mynychodd nifer cyfatebol o gyfranogwyr ($n=8$) y gweithdy i'r diwydiant.

Mae demograffeg a nodweddion y sampl yn ei gyfanrwydd (Tabl 1 isod) yn adlewyrchu ystod o fathau o ffermydd a ffermwyr sy'n adlewyrchu busnesau sy'n gweithredu ledled Cymru, ond ni ddylid ei ystyried yn gwbl gynrychioladol. Mae rhai o'r ffactorau pwysig i'w nodi'n cynnwys y gyfran uwch o ffermwyr dan 55 mlwydd oed; cyfran uwch o ffermwyr llawnamser a chyfran uwch o ffermydd dros 25 hectar (ha) nag sy'n nodweddiadol yn y sector (Ymchwil y Senedd, 2002; Thyer et al., 2024). Dylid ystyried yr arsylwadau hyn ynghyd â'r drafodaeth ynghylch y patrymau o ran math o segment ffermwr (Tudalen 18) wrth ddehongli'r data. Yn benodol, nodir fod oedran yn gallu dylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau ffermwyr a'u parodrwydd i arloesi, er bod hyn yn aml yn gysylltiedig ag amrywiaeth mewn llwybrau olyniaeth (Daniele, 2024), sy'n cael eu harchwilio yn y dadansoddiad. Yn yr un modd, mae capasiti ffermwyr yn ystyriaeth bwysig wrth edrych ar eu cyfle i wneud newidiadau, sy'n cael ei effeithio'n aml gan waith oddi ar y fferm. Er bod mwy na hanner y sampl wedi nodi eu bod yn ffermio llawnamser, roedd cyfyngiadau o safbwynt capasiti yn dal i fod yn bwynt trafod pwysig, yn aml yn adlewyrchu ar argaeledd llafur ehangach sydd ar gael ar draws y sector. Mae maint y fferm hefyd yn effeithio ar benderfyniadau, gyda'r ffermydd bach a bach iawn sy'n dominyddu'r sector yng Nghymru'n aml i'w gweld yn cael eu cymell i raddau llai gan sbardunau economaidd (Bradley et al., 2021). Gallai'r sampl, felly, adlewyrchu meddylfryd sy'n canolbwyntio'n fwy ar fusnes na'r hyn sy'n nodweddiadol. Mae'r dadansoddiad segmentu'n bwynt cyfeirio defnyddiol yn yr ystyr hwn i'w ystyried ochr yn ochr â maint y fferm, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfuniad o ffactorau sbarduno ar gyfer gwahanol fathau o ffermydd (gweler Tudalen 19). Mae myfyrdodau pellach ynghylch effaith segmentau sector a ffermwyr yn cael eu hystyried ar Tudalen 19.

Tabl 1. Demograffeg a nodweddion ffermydd allweddol y cyfranogwyr a gynrychiolwyd ar draws y gweithdy peilot a'r gweithdai ffermwyr.

Oedran	Gweithdy peilot	Gweithdai ffermwyr
O dan 30	2	1
31–55	4	35
Dros 55	2	19

Statws gweithio (roedd rhai ffermwyr yn nodi sawl opsiwn)		
Ffermwr llawnamser – yn berchen ar y fferm	0	32
Ffermwr llawnamser – tenant	0	8
Ffermwr rhan-amser – yn berchen ar y fferm	7	10
Ffermwr rhan-amser – tenant	1	4
Gweithiwr fferm	0	3
Contractwr	0	3
Arall*	0	7

Math o fferm		
Mynydd	1	8
Ucheldir	4	26
Llawr gwlad	3	21

Maint y fferm mewn hectarau (ha)		
1–25 ha	1	6
26–100 ha	5	21
101–300 ha	2	17
301 ha neu fwy	0	11

Prif fentrau ffermio (roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn nodi sawl opsiwn)		
Biff	6	40
Defaid	6	46
Llaeth	2	3
Moch	0	2
Dofednod	0	0
Tir Âr	0	6
Garddwriaeth	0	3
Coetir	1	3


Arall**	0	6
---------	---	---

***Partneriaeth ffermio cyfran, wedi ymddeol, gweithio yn rhywle arall**

****Cludiant/contractio, twristiaeth, organig, geifr**

3.2.3 Lleoliadau'r Gweithdai

Cynhaliwyd y gweithdy peilot ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen, Ynys Môn. Cafodd lleoliadau'r gweithdai wyneb yn wyneb i ffermwyr eu pennu ar ôl recriwtio ffermwyr gyda'r nod o sicrhau lleoliad canolog o fewn pob rhanbarth yng Nghymru ar gyfer y cyfranogwyr (Ffigur 2). Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer cynrychiolaeth ddigon gwasgaredig o ffermwyr o safbwynt daearyddol, gyda rhywfaint o bwyslais ar leoliad ac ardal fel profiad a oedd yn uno yn y gweithdai. Teimlwyd bod y dull hwn yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod meddyliau gwahanol ffermwyr sy'n rhannu gwahanol systemau ffermio ym mhob rhan o Gymru'n cael eu casglu yn ystod y gweithdai.



Ffigur 2. Lleoliadau a) gweithdai wyneb i wyneb, gan gynnwys y gweithdy peilot (marcwyr gwyn), a b) lleoliadau cyfranogwyr (ardaloedd oren). Hawlfraint Esri a'i ddarparwyr data. Ffynonellau: Esri, DigitalGlobe, GeoEye, USGS ac eraill.

Lleoliadau: Gaerwen, Llanrwst, Caernarfon, Y Drenewydd, Llandysul, Arberth, Aberhonddu.

Darparwyd y gweithdy i'r diwydiant ar-lein er mwyn sicrhau'r cyfranogiad gorau posibl gan gynrychiolwyr o'r diwydiant sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

3.2.4 Strwythur y Gweithdai

Datblygwyd dyluniad y gweithdai gan Mentera, gyda mewnbwn gan Brifysgol Bangor er mwyn sicrhau integreiddiad gyda mewnwleidiadau allweddol o'r llenyddiaeth ar ffermwyr yn gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys caniatáu lle i alluogi myfyrio ynghylch capasiti, cyfleoedd a ffactorau cymhelliant sy'n gallu bod yn sylfaen i newid ymddygiad ffermwyr (Evans et al., 2025; Wynne-Jones et al., 2023), er nad oedd y rhain yn cael eu henwi'n benodol gan eu bod yn fynegiadau academiaidd haniaethol. Er enghraifft, roedd y cwestiynau'n ceisio datgelu graddau gwybodaeth ffermwyr am y newid yn yr hinsawdd a sut y gallent addasu, yn ogystal ag archwilio'r sbardunau a'r rhwystrau canfyddedig ar gyfer gwneud newidiadau. Roedd mewnwleidiadau presennol hefyd yn annog cwestiynau wedi'u teilwra i gefnogi sgysiau mwy cynhyrchiol a oedd yn talu sylw i ddulliau ffermwyr o wybod a normau diwylliannol, er enghraifft ynghylch newidiadau yn yr 'amgylchedd fferm' yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar y 'newid yn yr hinsawdd' y gellid dadlau yn ei erbyn (Simmonds et al., 2025). Roedd yr anogaeth i archwilio sut mae ffermwyr yn ymgysylltu â therminoleg allweddol megis 'addasu' a 'gwytnwch' a sut maen nhw'n ystyried prosesau o newid, unwaith eto'n ymateb i bwysigrwydd deall ffyrdd penodol ffermwyr o ddod i wybod am bethau, ond hefyd yr angen i dalu sylw i brofiadau o newid bob dydd (e.e. Šūmane et al., 2018).

O ystyried y mewnwleidiadau hyn, cafodd y gweithdai eu strwythuro o amgylch tri chwestiwn allweddol, fel yr amlinellir yn Nhabl 2, gydag awgrymiadau pellach o dan bob un, fel y trafodir ymhellach isod. Roedd pob cwestiwn yn cysylltu'n ôl gydag amcanion yr astudiaeth (Adran 2).

Tabl 2. Prif gwestiynau'r gweithdai a pherthnasedd i'r amcanion (Adran 2).

Rhif	Cwestiwn	Amcan cysylltiedig yn yr astudiaeth
C1	Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweld ar eich fferm o ran amgylchedd y fferm dros yr ychydig ddegawdau diwethaf mewn cymhariaeth â heddiw?	A, D

C2	Beth ydych chi wedi'i newid yn eich arferion ffermio dros y blynnyddoedd/degawdau diwethaf mewn ymateb i bwysau ac amodau hinsoddol sy'n newid (os o gwbl)?	A, C, D
C3	Beth yw eich cynlluniau ffermio at y dyfodol?	B, D, E, F

Roedd rhan gyntaf y gweithdy (C1) yn canolbwyntio ar feddwl yn fras am amgylchedd y fferm. Yma, cafodd cyfranogwyr eu gwahodd yn unigol yn eu tro i edrych yn ôl ar y newidiadau i'r tir a nodweddion y tirlun, llystyfiant/cnydau a dyfir ar y fferm, bywyd gwyllt, a'r patrymau tywydd a brofir. Roedd defnyddio'r dull hwn o fynd o amgylch yr ystafell yn sicrhau bod pob llais unigol yn cael ei glywed, gan gynnwys y rhai tawel. Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent wedi gweld newidiadau tebyg yn lleol ai peidio, cyn meddwl yn ôl dros y degawdau diwethaf (nid oedd yr amserlen yn cael ei nodi'n benodol, ond anogwyd cyfranogwyr i feddwl am yr 20 mlynedd diwethaf, a thu hwnt, os yn bosibl) o ran y newidiadau yr oeddent wedi sylwi arnynt ar draws y sector amaethyddol o safbwynt addasu i bwysau amgylcheddol. Yn olaf, trafodwyd effaith gyffredinol y newidiadau hyn ar y defnydd o'r tir, rheolaeth, llystyfiant, twf cnydau, pridd a systemau a da byw.

Yn ail ran y gweithdy (C2), gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried eu harferion ar lefel y fferm a thrafod unrhyw newidiadau a wnaed (os o gwbl) i reolaeth eu systemau o ddydd i ddydd, mewn ymateb i'r amodau sy'n newid ar y fferm ac oddi ar y fferm. Bu cyfranogwyr yn archwilio'r cymhelliant sy'n sylfaen i'r newidiadau hyn, gan gynnwys sbardunau'n ymwneud â'r hinsawdd a ffactorau eraill sy'n cyfrannu. Trafodwyd effaith y newidiadau hyn ar y busnes fferm, gan gynnwys y cyfleoedd a'r heriau newydd a gyflwynwyd. I gloi'r rhan hon o'r gweithdy, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr addasiadau gofynnol ar y fferm mewn ymateb i'r newidiadau hyn, ynghyd â'r wybodaeth a ddefnyddir i arwain y penderfyniadau hynny.

Ar gyfer rhan olaf y gweithdy, roedd y ffocws yn symud tuag ar gynllunio ar gyfer y dyfodol (C3). Gofynnwyd i gyfranogwyr feddwl am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol agos (y flwyddyn i'r pum mlynedd nesaf) a'r dyfodol pell (y pum mlynedd i'r 20 mlynedd nesaf a thu hwnt os yn bosibl). Bu'r drafodaeth yn archwilio'r newidiadau yr oeddent yn eu rhagweld ynghyd â gwaith cynllunio maen nhw'n eu rhoi ar waith i ymateb i'r newidiadau hynny. Yn ogystal, trafodwyd y prif sbardunau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn (a drafodir ymhellach yn yr adran ganlyniadau). Ystyriwyd yr addasiadau sydd eu hangen i atgyfnerthu gwytnwch y fferm (o safbwynt yr hinsawdd ac yn economaidd), yn ogystal ag archwilio sut i gynllunio pryd i wneud newidiadau ar y fferm, a'r data a ddefnyddir i gefnogi pob penderfyniad. Rhoddwyd sylw i'r prif rwystrau rhag newid, i ba raddau mae mecanweithiau cymorth presennol yn cael eu defnyddio, yn ogystal â chymorth pellach sy'n angenrheidiol i alluogi ffermwyr i addasu i newidiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a heriau eraill sy'n dod i'r amlwg. I gloi, bu cyfranogwyr yn ystyried y cwestiwn ehangach

ynghylch barn y diwydiant amaeth ar oblygiadau hinsawdd sy'n newid ar amaethyddiaeth a defnydd tir yng Nghymru.

Roedd y cwestiynau ar gyfer y gweithdy i'r diwydiant yn dilyn yr un themâu. Fodd bynnag, yn ystod y gweithdy hwn, gwahoddwyd cyfranogwyr i rannu mewnwelediadau o safbwynt y diwydiant cyfan, yn hytrach na myfyrdodau personol neu ar gyfer lleoliad penodol. Anogwyd cyfranogwyr i ystyried safbwyntiau o'u sectorau gwaith, gan sicrhau bod barn pob menter ffermio yn cael ei chynrychioli.

Cynhaliwyd y gweithdai hyn yn gyfan gwbl ar ffurf trafodaeth, gyda'r tri chwestiwn allweddol yn cael eu dangos ar sleidiau i helpu i hoelio sylw'r cyfranogwyr. Wrth amlinellu disgwyliadau o'r gweithdy ar y dechrau, pwysleisiodd yr hwylusydd bwysigrwydd sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed, gan annog dysgu gweithredol fel bod pob cyfranogwr yn gallu cyfrannu'n gyfartal. Gosodwyd nodiadau gludiog o amgylch yr ystafell i annog y rhai a fyddai'n well ganddynt beidio â siarad yn gyhoeddus i rannu eu syniadau ar bapur. Anogwyd cyfranogwyr yn y gweithdai ar-lein hefyd i ddefnyddio'r adnodd 'sgwrsio' yn y cyfarfod. Rhannwyd cyfeiriad e-bost yr hwylusydd â chyfranogwyr, gan wahodd pawb i anfon unrhyw syniadau neu sylwadau ychwanegol a oedd yn codi ar ôl y gweithdy.

Mynychodd ysgrifennydd nodiadau o Mentera bob gweithdy i gofnodi'r prif negeseuon. Cafodd sain pob gweithdy ei recordio'n unol â GDPR y DU, ar ôl derbyn caniatâd y cyfranogwyr.

3.3 Dadansoddi Data

Cafodd recordiadau o'r gweithdai eu trawsgrifio a'u cyfieithu i'r Saesneg lle bo angen. Cwblhawyd dadansoddiad thematig o'r trawsgrifiadau gan un ymchwilydd ym Mhrifysgol Bangor i echdynnu'r prif batrymau a oedd yn codi yn ystod y trafodaethau ar gyfer pob cwestiwn. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn dilyn egwyddorion safonol dull chwe cham Braun & Clarke (2006), gan symud o ymgylchwrdd â'r data, hyd at godio a datblygu, mireinio a diffinio themâu. O ystyried strwythur clir y gweithdy, defnyddiwyd dull mwy casgliadol gan roi codau a themâu a bennwyd ymlaen llaw ar waith fel y pennwyd gan y cwestiynau a ofynnwyd (e.e., gwahanol godau ar gyfer gwahanol fathau o arsylwadau tywydd/hinsoddol/amgylcheddol). Fodd bynnag, rhoddwyd sylw hefyd i elfennau a oedd yn amlygu eu hunain yn fwy yn y data yn ôl yr angen. Cafodd y gwaith codio ei wneud â llaw gan ddefnyddio Microsoft Word. Roedd y themâu a nodwyd yn mapio i bwnc y cwestiynau allweddol a ofynnwyd i bob pwrpas (e.e., newidiadau amgylcheddol, busnes neu ymarferol; cynllunio at y dyfodol), ond nodwyd hefyd rai themâu trawsbynciol (gwneud penderfyniadau; ffynonellau gwybodaeth). Yn yr un modd, dylid nodi nad oedd trafodaethau ffermwyr bob amser yn mapio'n daclus gyda threfn y cwestiynau, ac roedd rhai themâu'n bresennol ar draws pob gweithdy.

Trwy'r gwaith codio hwn, a chymhwyso themâu yn ehangach, nodwyd meysydd cyffredin a gwahaniaethau o ran: y newidiadau amgylcheddol a'r tywydd a adroddwyd gan

gyfranogwyr ar gyfer C1; arferion a dulliau penodol a fabwysiadwyd gan y ffermwyr i ymateb i'r newid mewn pwysau o dan C2; a nodi pryderon cyffredin ar gyfer y dyfodol, a sut yr oedd yr ymatebwyr yn ceisio sicrhau gwytnwch eu busnesau wrth wynebu'r heriau arfaethedig hyn ar gyfer C3. Roedd hyn yn galluogi'r gwahanol amcanion ymchwil, fel y nodir yn Nhabl 2, i dderbyn sylw.


Ar draws yr holl drafodaethau, nod y dull oedd casglu mewnwelediad ynghylch dealltwriaeth ffermwyr o'r newid yn yr hinsawdd a'u canfyddiad o addasu a gwytnwch. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn ceisio deall sut yr oedd y ffermwyr yn gwneud penderfyniadau i newid eu harferion a/neu eu dulliau, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth a chymorth allweddol sy'n llywio ac yn hwyluso eu haddasiadau. Er bod y dadansoddiad wedi cael ei gwblhau yn Saesneg, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i bwysigrwydd yr iaith wrth gyfleu'r ystyr a fwriadwyd yn gywir, a lle bo'n berthnasol, ceisiwyd edrych ar y fersiynau Cymraeg o'r trawsgrifiadau er mwyn deall sut roedd materion allweddol yn cael eu hystyried.

Roedd deall sut mae gwahanol fathau o ffermydd a ffermwyr yn profi ac yn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn un o amcanion pwysig y gwaith ymchwil hwn. Roedd y dull, felly, yn ystyried gwahaniaethau posibl mewn profiadau ac ymddygiad rhwng sectorau ffermio, a rhwng y mathau o ffermwyr. Cynhaliwyd dadansoddiad segmentu o'r ymatebwyr yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o'r holiadur sgrinio gan ddefnyddio adnodd segmentu Llywodraeth Cymru (Lee-Woolf et al., 2014). Amlinellir y mathau o segmentau yn Ffigur 1. Defnyddiwyd y canlyniadau (Ffigurau 3 a 4) i gefnogi'r dadansoddiad thematig er mwyn canfod a oedd unrhyw batrymau yn y data o ganlyniad i'r gwahanol sectorau neu fath o segment. Mae'r llythyren berthnasol ar gyfer y math o segment (C/Y/M/R/U) ar gyfer pob ffermwr i'w gweld yn y cromfachau sgwâr yn dilyn y dyfynodau a ddangosir yn y canfyddiadau ar gyfer C2 a C3 (heb eu cynnwys ar gyfer dyfyniadau C1 gan fod y math o segment yn annhebygol o fod wedi effeithio ar arsylwadau ffermwyr o'r tywydd a newidiadau amgylcheddol eraill). Cafodd dyfyniadau o'r gweithdy i'r diwydiant hefyd eu nodi mewn cromfachau sgwâr ar gyfer C2 a C3.

4. Canfyddiadau


4.1 Canlyniadau'r Model Segmentu

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd adolygiad o ymatebion cyfranogwyr i'r holiadur yn unol â Model Segmentu Llywodraeth Cymru (Ffigur 1) yn caniatáu ar gyfer nodi'r math o ffermwyr (h.y. C/Y/M/R/U). Mae Ffigurau 3 a 4 yn dangos dadansoddiad o'r clystyrau yn y gweithdy peilot a'r gweithdai i ffermwyr. Fel y gwelir yn Ffigur 3, roedd y gweithdy peilot yn cynnwys cyfranogwyr 'C' yn bennaf, heb unrhyw gyfranogwyr 'M' ac 'R'.



Ffigur 3. Dadansoddiad o'r clwstwr cyfranogwyr yn y gweithdy peilot (n = 8).

Roedd pob clwstwr o'r model segmentu'n cael eu cynrychioli yn y gweithdai i ffermwyr (Ffigur 4). Roedd rhai clystyrau'n dominyddu mwy na'i gilydd (h.y., poblogaeth fach o 'M' ac 'R').



Ffigur 4. Dadansoddiad o'r clwstwr o ffermwyr (n = 55).

Trafodir perthnasedd y clystyrau ffermwyr hyn i ganlyniadau'r gweithdy isod.

4.2 Perthnasedd canfyddiadau o ran gwahaniaethau rhwng sectorau a chlystyrau ffermwyr

Fel y nodwyd yn flaenorol, elfen ganolog o'r gwaith ymchwil hwn oedd archwilio sut mae gwahanol fathau o ffermydd a ffermwyr sy'n gweithredu ar draws gwahanol sectorau'n profi ac yn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. O ran gwahaniaethau rhwng sectorau, mae'n werth nodi bod themâu tebyg wedi cael eu trafod ar draws y gwahanol weithdai. Ery gellid disgwyl mwy o wahaniaethau, o ystyried dosbarthiad daearyddol y gweithdai a gwahaniaethau cysylltiedig yn y sectorau a'r amodau amgylcheddol mewn gwahanol ranbarthau, roedd lefel uchel o bethau'n gyffredin o ran profiadau rhwng y grwpiau.

O ran gwahaniaethau rhwng clystyrau ffermwyr, er bod amrywiaeth dda o ffermwyr o safbwynt demograffeg a math, maint a mentrau ffermio (Tabl 1) wedi cael eu recriwtio er gwaethaf maint sampl cymharol fach yng nghyd-destun y diwydiant ehangach, nid yw'n syndod bod gorgynrychiolaeth o'r math o ffermwr sy'n well ganddynt ymgysylltu mwy gyda ffermwyr eraill ac sydd fwyaf agored i ddysgu am sgiliau neu dechnoleg newydd (Clystyrau 'C', 'Y', 'U'). Gan mai dim ond pump o'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan oedd o Glystyrau 'R' neu 'M', nid yw'n bosibl amlinellu patrymau clir mewn ymatebion ffermwyr yn ôl math. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r trafodaethau dilynol – e.e., eu dewisiadau o ran ffynonellau gwybodaeth, ffactorau sy'n sbarduno newid neu'r defnydd o dechnolegau a mesurau effeithlonrwydd – nodir rhai arsylwadau sy'n berthnasol i'r math o ffermwr, gan adlewyrchu sut y gallai gwahanol ffermwyr ymgysylltu fel arall.

Mewn perthynas â gwerthoedd ymatebwyr ynghylch yr amgylchedd, roedd y sampl wedi'i rannu'n fwy cyfartal, gan ddilyn y clystyrau sefydledig, gyda 'C', 'Y' ac 'M' yn gysylltiedig â gwerthoedd amgylcheddol cadarn, ac 'R' ac 'U' gyda gwerthoedd amgylcheddol gwannach. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi effeithio'n sylweddol ar ganfyddiad nac ymateb cyfranogwyr i'r newid yn yr hinsawdd, fel y dangosir yng nghanlyniadau'r gweithdy isod, gyda phob clwstwr segment ffermwyr yn cyfrannu at y trafodaethau.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi, lle bo'n berthnasol, lle bo'r ymatebwyr yn teimlo bod eu dulliau neu eu mewnwelediadau'n mynd yn groes i'r hyn y gallai'r diwydiant ehangach fod yn ei wneud neu'n ei feddwl. Fel y nodwyd gyda'u clystyrau segment, gellir ystyried mynychwyr y gweithdai fel carfan fwy rhagweithiol ac arloesol yn gyffredinol na'r hyn sy'n nodweddiadol ledled Cymru gyfan. Un arwydd o hyn oedd eu penderfyniad i gofrestru i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, wrth ddilyn dadansoddiad Lee-Wolf et al (2014), mae nifer sylweddol o ffermwyr Cymru o hyd o fewn y sector cyfan sy'n ymgysylltu mewn modd tebyg gyda'r angen am newid (Ffigur 1). Hyd yn oed ar gyfer ffermwyr 'R', sy'n 'tueddu i beidio â chwilio am wybodaeth, technoleg neu sgiliau

newydd', mae'r awydd i sicrhau'r incwm gorau posibl i'w weld yn sbarduno newid ymysg ymatebwyr. Efallai y byddai ffermwyr 'M', sydd ag agwedd fwy traddodiadol ac yn cael eu harwain yn llai gan incwm, yn cael eu hystyried yn garfan anoddach i ymgysylltu â nhw, ond gallai eu gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a'u hansawdd bywyd gynnig meysydd pwysig i greu cysylltiad â nhw. Gan mai dim ond dau ffermwr 'M' a gafodd eu recriwtio, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ehangach ynglŷn â'r segment hwn. Yn ogystal, gan fod un ffermwr o Glwstwr 'M' wedi nodi ei fod yn gwrando ar bodlediadau ac yn defnyddio systemau pori cylchdro, cynnal samplau pridd biolegol ac yn newid stoc a seilwaith fferm, mae angen bod yn ofalus wrth wneud rhagdybiaethau ynghylch ymddygiad neu ddewisiadau ffermwyr yn y gwahanol fathau o glystyrau.

4.3 Canlyniadau'r gweithdai

Cafodd y data o bob gweithdy (gweithdy peilot, gweithdai ffermwyr a gweithdai'r diwydiant) eu casglu ynghyd ar gyfer y dadansoddi a'r adrodd.

At ddibenion adrodd, bydd newidiadau mewn amodau amgylcheddol (gan gynnwys y tywydd a'r hinsawdd), ynghyd â'u heffeithiau, yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r modd yr oedd cyfranogwyr y gweithdai'n disgrifio'r heriau yr oeddent wedi'u profi a'r effeithiau dilynol ar eu systemau amaethyddol, a oedd yn gysylltiedig yn gynhenid.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r llythyren segment math perthnasol (C/Y/M/R/U) ar gyfer pob ffermwr i'w weld mewn cromfachau sgwâr ar ôl y dyfyniadau a ddangosir yn y canfyddiadau ar gyfer C2 a C3. Mae dyfyniadau o'r gweithdai i'r diwydiant hefyd wedi'u nodi mewn cromfachau sgwâr.

4.3.1 Newidiadau mewn amodau amgylcheddol yn y gorffennol a'r presennol, a'u heffeithiau (C1)

4.3.1.1 Newidiadau a arsylwyd mewn amodau amgylcheddol ar y fferm

Roedd pob cyfranogwr yn cytuno bod y tywydd wedi dod yn fwyfwy eithafol ac anodd ei ragweld, gan amrywio o batrymau tywydd hanesyddol. Roeddent yn nodi eu bod wedi gweld newid yn amseru'r 'tymhorau', patrymau tymherus a'r tywydd. Roedd llawer yn disgrifio eu bod yn gorfod 'mynd ar ôl y tywydd' a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r angen i fod yn addasol ac yn ymatebol i'r hyn y mae amodau'r tywydd yn ei ganiatáu o fewn blwyddyn benodol. Roedd llawer o gyfranogwyr yn cydnabod yr her o fethu â dibynnu ar batrymau tywydd sefydledig erbyn hyn a'u cynlluniau ffermio cysylltiedig –

“Dros y pum mlynedd diwethaf – roeddech chi'n gallu mynd o dywydd eithriadol o wlyb, a'r eironi yw, unwaith mae'r glaw'n stopio, bydd sychder yn digwydd... mae angen i ni fod yn barod amdano mewn gwirionedd. Ie, oherwydd hynny, mae pethau'n newid ...”

“Mae patrymau’r tywydd wedi newid. Cawsom 6–8 wythnos o law eithafol, 6–8 wythnos o dywydd sych, ac mae fel swits ac yn ôl i’r dechrau... Fel diwydiant amaeth, ni yw’r cyntaf i weld y newidiadau (‘ar flaen y gad’) ac rydym yn gweld cymaint o newid yn yr hinsawdd...”

Roedd problemau cyffredin sy’n gysylltiedig â’r newidiadau hyn yn cynnwys anhawster i fynd ar dir yn y gwanwyn i wasgaru gwrtaith neu i droi da byw allan, gyda phwyslais sylweddol ar orfod bod yn ymatebol i newid –

“Rwy’n cofio pan oeddem ni’n cynaeafu gwair, doedd dim angen i ni boeni ei fod i lawr am dri neu bedwar diwrnod... nid oedd angen poeni am y rhagolygon drwy’r amser.”

“Ein cyfleoedd i fynd ar y caeau a’n hamserlenni ym maes garddwriaeth... mae’r cyfnod yn gallu bod yn fyr iawn. Mae’r cyfarwyddiadau’n mynd drwy’r ffenest i bob pwrpas ac mae’n rhaid i chi wneud penderfyniadau ymatebol iawn, ac mewn gwirionedd, nid yw bod yn ymatebol yn ddelfrydol gan ei bod hi’n braf gallu cynllunio ymlaen llaw...”

Cafwyd consensws ymysg y cyfranogwyr bod y gaeafau bellach yn wlypach ac yn fwynach, gyda llai o ddigwyddiadau tywydd oer (barrug ac eira). Roedd sawl ffermwr yn hel atgofion am gyfnodau hir o eira a rhew, nad ydynt yn digwydd bellach –

“Ffyrdd wedi cau am chwe wythnos oherwydd yr eira. Nid ydym yn gweld hynny mwyach.”

“Rwy’n cofio faint o eira yr oeddem ni’n ei gael yn yr 80au... Doedd hi ddim yn anarferol i ni orfod cario llaeth i lawr y ffordd am gyfnod o 7 i 10 diwrnod weithiau i gwrdd â’r lori. Roedd cymaint o eira a rhew... nid yw hynny’n digwydd nawr.”

Ynghyd â’r ymdeimlad ehangach bod gaeafau’n fwy mwyn ar y cyfan, gyda llai o dywydd oer eithafol, cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch estyniad tymor tyfu’r haf i hydref a gaeaf mwyn, gan awgrymu symudiad yn y tymhorau. Er bod tymhorau tyfu glaswellt estynedig yn creu cyfleoedd ar gyfer newid systemau ac arferion mewn rhai achosion (e.e., gallu troi gwartheg allan yn gynt o ganlyniad i allu cadw’r glaswellt dros y gaeaf ar gyfer y gwanwyn), cafwyd pryder hefyd fod gaeafau mwynach, gwlypach yn cyfrannu at faich ychwanegol o safbwynt plâu –

“Nid ydym yn cael y barrug caled sy’n lladd popeth (glaswellt) yn y gaeaf. Mae’n rhy fwyn, mae’n dal i dyfu.”

“Nid ydych chi’n cael barrug dros y gaeaf bellach... felly mae eich plâu a’ch clefydau’n para drwy gydol y gaeaf.”

Nododd rhai cyfranogwyr gyfnodau hirach o dywydd poeth a sychder yn ystod yr haf mewn rhai ardaloedd. Mynegodd llawer o gyfranogwyr bryderon ynghylch yr heriau cysylltiedig o ran twf glaswellt (e.e., llai o doriadau silwair, yr angen i roi porthiant ategol a thyfu porthiant i’w ddefnyddio yn ystod misoedd cynhesach), yn ogystal ag effeithiau ar iechyd anifeiliaid (e.e., straen gwres, dyfodiad clefydau newydd), perfformiad a ffrwythlondeb (gostyngiad yng nghanrannau sganio mamogiaid). Roedd llawer o

gyfranogwyr yn adrodd bod argaeledd dŵr yn dod yn broblem mewn ardaloedd nad oeddent wedi'u heffeithio yn y gorffennol (e.e., tyllau turio'n mynd yn sych), gan amlygu'r angen i ystyried cyflenwad dŵr ac opsiynau casglu a storio. Roedd rhai ffermwyr yn gallu ymdopi heb ddyfrhau er gwaetha'r cyfnodau o sychder yn yr haf (h.y., tir âr) ond yn cydnabod pwysigrwydd stormydd mellt a tharanau i gefnogi twf cnydau –

“Rydym ni’n cael mwy o dywydd o’r Azores a Ffrainc yn ystod yr haf, sef glaw taranau. I ni fel tyfwyr tatws, er ei bod wedi bod yn sych drwy gydol yr haf ar y cyfan, cawsom stormydd mellt a tharanau ym mis Mai a roddodd ddigon o law i gefnogi’r tatws fel nad oedd angen eu dyfrhau dros yr haf...”

Er gwaetha'r heriau hyn, roedd y cyfnodau o sychder dros yr haf yn cyflwyno cyfleoedd newydd i'r gyfranogwyr a oedd yn ffermio tiroedd gwlypach ar briddoedd trymach, o ganlyniad i lai o lifogydd, gan arwain at well twf glaswellt a chynhyrchu mwy o silwair na'r angen.

Roedd llawer o ffermwyr yn bryderus am y cynnydd mewn tanau ar yr ucheldir. Ar draws y grwpiau, bu cyfranogwyr yn trafod sut mae gwahanol bolisïau a chynlluniau dros amser (e.e., taliadau fesul pen a phresgripsiynau amaeth amgylcheddol) wedi effeithio ar lystyfiant (e.e., grug talach, eithin) a newid arferion rheoli gan arwain at fwy o risg o dân –

“Mae’r tanau a ddigwyddodd y llynedd wedi dangos bod gennym ni broblem gyda gordyfiant. Os oes llawer o ordyfiant, mae tanau’n lledaenu...”

“(fel ymateb i leihau niferoedd stoc ar y bryniau) mae un math o lystyfiant yn cynyddu neu mae’r llwyth llystyfiant yn cynyddu... yna, wrth gwrs, ceir risg ychwanegol pan fydd yn mynd ar dân... mae’n mynd ar dân mewn modd difrifol iawn. Mae’n llosgi’n ddrwg iawn. Felly, rwy’n credu bod problem yn y fan hon yn bendant.”

Ar draws y gweithdai, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn adrodd eu bod wedi profi llifogydd drwy gydol y flwyddyn, gyda chyfnodau o sychder yn y canol mewn rhai achosion, gan adlewyrchu'r ymdeimlad o fwy o dywydd eithafol. Roedd llawer yn cwestiynu a oedd y llifogydd yn adlewyrchu cynnydd cyffredinol mewn glawiad neu lawiad trymach yn disgyn yn ystod stormydd sylweddol. Roedd gan rai unigolion ddata hanesyddol i gefnogi hyn –

(Wrth drafod darlleniadau o’u system ynni dŵr). “Rydym ni’n cael yr un faint o law yn fras drwy gydol y flwyddyn gyfan. Roeddwn i wedi sylwi ar hynny beth bynnag, ond roedd y system ynni dŵr yn cadarnhau bod y glawiad yn digwydd am gyfnod byrrach ond yn drymach. Felly, rydym ni’n cynhyrchu llai o drydan o’r system ynni dŵr nawr nag yr oeddem ni 10 mlynedd yn ôl gan fod gennym ni naill ai ormod o ddŵr yn y system neu ddim digon.”

(Arsylwadau tebyg ar gyfer monitro glawiad). “Mae fy nhad yn cofnodi glawiad bob mis o’r flwyddyn, ac mae wedi gwneud hynny ers cyn cof. Nid yw’r glawiad yn wahanol iawn, ond

mae'n ymwneud â chyfanswm y glawiad, hynny yw, popeth neu ddim, a hynny sy'n achosi'r effeithiau mwyaf – nid mwy o lawiad, ond yn hytrach, pryd mae'n disgyn."

Cafwyd ymdeimlad cryf bod tywydd gwlyb i'w weld yn effeithio ar arferion pori ac ailhadu, gyda'r angen am newidiadau ac addasiadau dilynol. Mae amodau gwlypach yn dylanwadu ar ddefnydd o beiriannau'n fwy cyffredinol ar y tir, ynghyd ag effeithiau ar iechyd anifeiliaid (cloffni/mastitis), a'r gallu i wyna neu loia yn yr awyr agored. O ganlyniad, nododd rhai ffermwyr fod capasiti eu tir i gadw anifeiliaid yn lleihau ar wahanol adegau o'r flwyddyn o ganlyniad i lifogydd, newidiadau mewn llystyfiant ac effeithiau sylfaenol ar gyflwr y pridd (mwy o ardaloedd corsiog, cyrsiau dŵr yn symud ac yn effeithio ar fynediad i borfeydd) gan arwain at fwy o ofynion ar gyfer siediau da byw a'r costau cysylltiedig, a allai ddylanwadu ar benderfyniadau busnes ehangach yn ei dro (e.e., niferoedd stoc) –

"Rydym ni wedi sylwi bod glannau'r afonydd ac ati, maen nhw wedi dirywio dros amser oherwydd cymaint o lifogydd."

"Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus erbyn hyn... wrth bori yn y gaeaf, mae angen i chi fod yn barod i symud eich stoc. Nid yw'n bosibl pori cymaint ar y tir ag ers talwm. Felly, mae'n debyg bod hynny'n cyfyngu ar ein defnydd o'r tir hwnnw. Os oedd rhywfaint o'r tir hwnnw wedi cael ei aredig a'i ailhadu yn y gorffennol, mae hynny'n amhosibl bron erbyn hyn... mae'n cymryd llawer iawn o amser i ailsefydlu glaswelltir da... os yw'n dir sy'n debygol o fod o dan ddŵr gan nad yw'r planhigion yn cael cyfle i sefydlu cyn iddynt brofi llifogydd..."

"Gyda'r newid yn yr hinsawdd, mae potsio'n broblem. Ie, llawer mwy o law. Roedd yn rhaid i mi fuddsoddi mewn dwy neu dair sied rwy'n credu i gadw'r mamogiaid, fe wnaethom ni edrych ar bob math o wahanol fathau o systemau – pori yn yr awyr agored, tyfu maip soft, ond ie, y tywydd, rheoli'r mamogiaid gan ein bod yn arfer wyna'n gynnar, byddai hynny'n gallu bod yn ofnadwy weithiau."

"Os byddwn ni'n cael dechrau gwlyb neu hydref neu wanwyn gwlyb, mae'n anodd – ni fydd y gwartheg yn mynd allan tan ddiwedd Ebrill fwy na thebyg, lle dylent fod yn mynd allan ddiwedd Chwefror–Mawrth gyda'r glaswellt yr ydym ni'n ei dyfu, ond ni allwn eu gadael allan, maen nhw'n gwneud gormod o annibendod. Ac yna, yn y gaeaf unwaith eto, gallai llawer o'r stoc ifanc gael eu cadw allan dros y gaeaf. Ond ni allwn wneud hynny, mae'n rhy wlyb, felly mae llawer o wastraff yn y fan honno."

Ar draws y gweithdai, roedd cyfranogwyr yn arsylwi mwy o dywydd stormus a gwyntog nag yn y gorffennol – gan ddifrodi seilwaith y fferm a chwythu coed i lawr. Cafwyd ymdeimlad cyffredinol ymysg cyfranogwyr o orfod addasu'n unol â hynny. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y gallai addasiadau fod yn haws mewn rhai ardaloedd na'i gilydd (h.y., ardaloedd arfordirol/agored) –

"Rydw i'n bendant wedi dechrau disgrifio fy hun fel ffermwr newid hinsawdd gan fy mod i'n credu fy mod yn gweld llawer o newid... yn enwedig fel ffermwr arfordirol yma gyda

thwneli plastig... mae'n fwy gwyntog yn bendant. Ac rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth yr ydym wedi sylwi arno'n bendant. Ac mae hynny wedi effeithio'n sylweddol arnom ni."

Roedd rhai cyfranogwyr yn nodi'r angen ar gyfer rheolaeth fwy gweithredol bellach ar eu tiroedd nag yn y gorffennol o ganlyniad i effeithiau hinsoddol a systematig ar gyflwr y pridd (erydiad pridd, colli maetholion, cywasgiad). Soniodd rhai ffermwyr am newidiadau rheolaeth a arsylwyd, gyda rhai rhanbarthau'n symud tuag at systemau ffermio mwy dwys ac ehangu systemau cynhyrchu tir âr, sy'n aml yn golygu defnyddio peiriannau mwy a allai arwain at oblygiadau negyddol ar gyfer iechedd y pridd.

Y tu hwnt i'r hinsawdd, roedd newidiadau mewn llystyfiant yn destun trafod cyffredin ar draws y gweithdai, gyda chanfyddiad bod hynny'n cael ei sbarduno gan newidiadau polisi. Fel y nodwyd yn gynharach, credwyd bod ardaloedd ucheldir yn cael eu heffeithio'n benodol gan leihad mewn niferoedd stoc, gyda mwy o rug talach, rhedyn ac eithin yn tyfu; ond hefyd, bod brwyn a gwellt y gweunydd yn ymddangos mewn ardaloedd gwlyb ar draws y fferm. Mynegodd sawl cyfranogwr bryderon ynghylch dibyniaeth ar gynlluniau, gan gwestiynu a oedd rhai cynlluniau amaeth amgylcheddol wedi darparu 'gwelliannau' amgylcheddol. Trafodwyd hefyd y cydbwysedd o ran ffocws rhwng yr amgylchedd a chynhyrchiant, ynghyd â rhwystredigaeth yn ymwneud ag ymreolaeth ffermwyr a mewnwleidiadau i arfer gorau ar y fferm o'u cymharu â chyfarwyddyd polisi. I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai cyfranogwyr fod y cynlluniau wedi eu galluogi i wneud newidiadau amgylcheddol dymunol a phenodol ar y fferm, gan gynnwys gwaith cyfalaf megis ffensio a phlannu gwrychoedd.

Nododd sawl cyfranogwr fod mwy o goed a gwrychoedd yn cael eu plannu erbyn hyn, gan fynd yn groes i newidiadau blaenorol. Roedd hyn yn aml yn cael ei ystyried yn newid cadarnhaol, gan ddefnyddio ardaloedd ymylol y caeau i ddarparu cysgod yn ystod tywydd eithafol. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon o safbwynt colli tir fferm cynhyrchiol ar gyfer plannu coed. Cafwyd barn gymysg ynghylch i ba raddau y mae polisi a phwysau'r farchnad yn effeithio ar ffermio mewn perthynas â'r amgylchedd.

Nododd rhai cyfranogwyr gysylltiadau rhwng newid mewn llystyfiant a'r bywyd gwyllt sy'n bresennol. Cafwyd ymdeimlad cryf o bryder ynghylch y cynnydd mewn plâu, gan gynnwys moch daear. Roedd gostyngiad yn nifer yr adar sy'n nythu ar y ddaear (ac adar yn gyffredinol) a draenogod yn bryder i lawer. Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod lefelau da o fywyd gwyllt ar y fferm, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd tir yn cael ei reoli'n benodol er eu budd. Cafwyd cydnabyddiaeth gan rai bod newidiadau'n deillio o gynlluniau penodol, megis Glastir, wedi gwella bioamrywiaeth, er nad oeddent bob amser yn edrych yn brydferth. Roedd cyfranogwyr eraill yn llai pendant ynghylch effeithiau cynlluniau ar fioamrywiaeth fferm, gyda barn amrywiol ynghylch poblogaeth bywyd gwyllt ar y fferm. Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r newidiadau cadarnhaol a negyddol mewn poblogaethau bywyd gwyllt a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai mewn

perthynas â chynlluniau penodol (e.e., taliadau fesul pen, Glastir) a chyfuniad o ffactorau eraill.

Tabl 3. Effeithiau cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cynlluniau penodol ar y bywyd gwyllt a'r fioamrywiaeth a arsylwyd.

Cadarnhaol	Negyddol
Presenoldeb madfallod ar y tir	Gostyngiad yn nifer y pysgod mewn pyllau ar y mynydd ac eogiaid yn yr afon
Cynnydd mewn poblogaethau fflora o fewn coetir lle nad oes mynediad i dda byw	Gostyngiad mewn poblogaethau adar o ganlyniad i lai o stoc ar y tir (grugiar ddu, boda tinwyn) a mwy o boblogaethau ysglyfaethus (gylfinir, cornchwiglen). Hefyd llai o adroddiadau o'r gog a'r ehedydd
Presenoldeb cynefin yn annog poblogaeth adar cân	Llai o stoc yn arwain at broblemau gyda grug, brwyn a gordyfiant
Cwtiaid aur yn nythu ar y bryniau o ganlyniad i reolaeth briodol o'r borfa – glaswellt byr	Mwy o boblogaethau ysglyfaethus yn effeithio ar ŵyn newydd-anedig

Roedd achosion o glefydau, gan gynnwys clefydau newydd, sy'n aml yn gysylltiedig â newid mewn amodau hinsoddol, yn bwnc trafod ym mhob gweithdy. Soniodd sawl cyfranogwr am orfod ymyrryd yn amlach a brechu da byw, gyda rhai'n nodi nad oedd y milfeddyg lleol erioed wedi dod ar draws rhai o'r clefydau newydd sy'n dod i'r amlwg yn yr ardal leol –

“Rydym ni hefyd wedi sylwi ar bethau o ran clefydau... rydym ni'n gweld pethau na fyddem wedi gorfod ymdrin â nhw hyd yn oed pum mlynedd neu chwe blynedd yn ôl. Rydym ni wedi cael clefyd ‘Barber’s Pole’ er enghraifft. A syfrdanwyd ein milfeddyg gan fod y clefyd i'w weld yn y de-ddwyrain ac Awstralia yn y gorffennol. O ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Yn bendant... mae'r gwaith ymchwil yr wyf wedi'i wneud yn dangos ei fod wedi mudo o'r de-ddwyrain a'i fod bellach yn dod i fyny i rannau o Gymru... newid yn yr hinsawdd yn bendant. Ac yna, gyda'r defaid, rydym ni'n gweld cynrhon ym mis Tachwedd, ac ni fyddem wedi gweld hyn hyd yn oed pum, chwe neu saith mlynedd yn ôl oherwydd y gaeafau mwynach a'r hydrefau gwlyb.”

“Un peth gyda'r ŵyn yn bendant yw ein bod yn gorfod rhoi triniaeth cynrhon yn llawer cynt na'r gorffennol. Yn fwy na thebyg o ganlyniad i'r tymhorau gwanwyn poeth a llaith yr ydym ni wedi bod yn eu profi. Mae hynny'n golygu ei fod yn dod i ben tua hanner ffordd drwy'r haf ac mae'n rhaid i chi ei ail-wneud.”

Mae Tabl 4 yn rhoi crynodeb o'r clefydau a'r plâu yr adroddwyd sydd ar gynydd, yn ogystal â'u heffeithiau, fel y nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai.

Tabl 4. Cynnydd mewn clefydau a phlâu a welwyd gan gyfranogwyr, ac enghreifftiau o reoli clefydau ar ffermydd.

Clefyd/pla	Effaith
TB	Ffermwyr yn newid eu systemau – symud tuag at besgi gwartheg ar y fferm (fel bod modd eu gwerthu wedi’u pesgi hyd yn oed gydag achosion o TB o fewn y fuches), cadw llai o stoc neu brynu llai a chadw anifeiliaid cyfnewid eu hunain, gan leihau symudiad stoc
Llyngyr	Nodwyd bod baich llyngyr yn broblem benodol mewn mamogiaid – gorfod monitro cyfrif wyau ysgarthol yn fwy rheolaidd a newid strategaeth trin llyngyr, yn fwy parod i ofyn am gyngor gan filfeddyg
Llyngyr yr iau	Mwy o ardaloedd gwlyb/dŵr sefyll, credir bod y cynnydd mewn llyngyr yr iau o ganlyniad i lai o adar yn bwyta’r malwod – gorfod profi ysgarthion yn fwy rheolaidd
Clefydau newydd – Llyngyr yr ystumog (Barber’s Pole), Schmollenberg, y Tafod Glas	Mwy ymwybodol o glefydau newydd – mae angen ymyrraeth, brechu da byw
Dermatitis Digidol Defeidiol Heintus (Codd)	Mae angen ymyrraeth er mwyn trin stoc yn fwy rheolaidd
Trogod – Twymyn sy’n cael ei gario gan drogod	Pori annigonol ar y bryniau (a gordyfiant) yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth y drogod. Mae angen rheoli tir lle mae clefydau’n bresennol – e.e., cadw gwartheg allan yn y gaeaf i sathru rhedyn (cynefin ar gyfer trogod)
Problemau iechyd eraill – e.e., clefydau anadlol	Ystyried newid mewn rheolaeth da byw – cadw dan do neu beidio, amodau llaith yn y sied

Ar draws pob un o’r gweithdai, bu ffermwyr yn trafod ffactorau eraill sy’n sbarduno newid y tu hwnt i amodau hinsoddol ynghyd â newidiadau polisi. Mae’r ffactorau hyn yn cynnwys pwysau ehangach o safbwynt strwythur a’r farchnad sy’n dylanwadu ar argaeledd llafur, maint ffermydd, yr angen am gyflogaeth oddi ar y fferm a chostau mewnbynnau. Nodwyd bod addasu o ganlyniad i’r ffactorau hyn sy’n sbarduno newid yn heriol o ganlyniad i lai o argaeledd o ran llafur a phrinder amser.

Nodwyd bod newidiadau sectoraidd, megis gostyngiad yn nifer y ffermydd llaeth, er bod y ffermydd presennol yn mynd yn fwy, ynghyd â gostyngiad mewn dwysedd stocio, a symudiad oddi wrth gynhyrchu da byw i gynhyrchu cynyau â, yn dylanwadu ar gapasiti

rheoli. Bu llawer o'r cyfranogwyr yn disgrifio newidiadau system fel strategaethau addasu, gan gynnwys addasu niferoedd a mathau o dda byw, neu addasu dewisiadau a chylchdro cnydau. Mae rhai ffermydd, yn enwedig ffermydd llaeth, wedi dwysáu mewn ymateb i bwysau ar y farchnad a'r angen i gynyddu allbynnau. Mae eraill wedi canolbwyntio ar leihau mewnbynnau neu arallgyfeirio (a drafodir yn nes ymlaen) er mwyn ychwanegu at incwm y fferm, gan arwain at ymdeimlad cynyddol o begynnu.

Roedd cyfranogwyr yn y gweithdai hefyd yn tynnu sylw'n gyffredinol at leihad yn nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r sector, ochr yn ochr â buddsoddiad allanol cynyddol. Ystyriwyd bod y tueddiadau hyn yn ychwanegu pwysau ac yn cyfrannu at newid o fewn y gymuned ffermio. I'r gwrthwyneb, roedd cyfranogwyr yn gweld bod y sector garddwriaeth (yn enwedig systemau organig) yn gweld cynnydd mewn newydd-ddyfodiaid. Fodd bynnag, tybir bod y cyfle i'r unigolion hyn gael mynediad at y tir a sefydlu eu hunain y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl, gan gyflwyno heriau sylweddol i newydd-ddyfodiaid, fel y nodwyd gan rai cyfranogwyr.

Trafodwyd bod newid mewn pwysau rheoleiddio (e.e., Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, rheoliadau TB) yn effeithio ar benderfyniadau rheoli, gan gyd-fynd â phwysau eraill –

“Rwy’n credu y dylem fod yn bryderus ynghylch dyfodol buchesi sugno yng Nghymru. Rydw i wedi gweld gostyngiad mewn buchesi sugno a rheolaeth o’u cynefinoedd – yn amlwg, gyda gwartheg sugno, nid yw’r anifeiliaid angen y gwerth maethol uchel, a gellir eu defnyddio i reoli cynefinoedd, a gyda gostyngiad mewn proffidioldeb buchesi sugno, a’n bod ni’n eu colli gan bwyll yng Nghymru, rydym ni’n colli’r adnodd rheoli hwnnw ar gyfer cynefinoedd.”

“Mae’n debyg ein bod ni’n un o tua hanner dwsin o ffermwyr [yn yr ardal leol] sy’n cadw buchesi sugno. Os edrychwch chi’n ôl 20 mlynedd, mae’n debyg y byddai’r ffigwr yn ddwbl hynny. Ond o ganlyniad i fethiant y polisi TB a Pharthau Perygl Nitradau ac ati, mae wedi gwrthio llawer o ffermwyr i beidio â chadw gwartheg yma erbyn hyn, sy’n drueni mawr mewn gwirionedd.”

Nododd cyfranogwyr fod y Cynllun Taliad Sylfaenol wedi galluogi rhai ffermwyr i aros ar eu ffermydd gyda niferoedd stoc isel, yn hytrach na throsglwyddo awenau’r fferm wrth ymddeol. Mae’n ymddangos bod ystod ehangach o ffactorau hefyd yn cyfrannu at y tueddiad graddol i ostwng niferoedd stoc dros amser, a oedd yn bwnc trafod ar draws y gweithdai –

“Heb fewnbwn dwysedd stocio... mae torri’n ôl ar ein tir mynyddig yn beth negyddol. Ac mae ein tiroedd llawr gwlad gyda’r holl fewnbynnau (o ganlyniad i fwy o stoc) yn mynd ar dân. Mae’n hawdd iawn torri’n ôl gymaint fel eich bod yn effeithio’n negyddol ar ffrwythlondeb ac iechyd eich priddoedd. Ac yna, byddwch chi’n tyfu llai a llai. Ac yna,

rydych chi'n dechrau gwaredu stoc am nad ydych chi eisiau prynu'r dwysfwyd a'r gwrtaith. Mae'n hawdd iawn mynd am yn ôl."

4.3.1.2 Gwahaniaethau a arsylwyd rhwng effeithiau'r hinsawdd ar diroedd eu ffermydd eu hunain (a'r ardaloedd lleol) a'r sector yn fwy cyffredinol ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol

Roedd rhai cyfranogwyr yn nodi bod y tywydd yn gallu bod yn lleol iawn – e.e., glaw neu stormydd mellt a tharanau'n digwydd mewn llecynnau unigol ond nid ymhellach i lawr y ffordd –

"Mae'n debyg ein bod ni mewn llecyn lle mae'r mynyddoedd yn gweithredu fel cysgod rhag y glaw, a phan mae'n dod drosodd atom ni... gallwn yrru am 10 munud i'r dref ac mae'n wlyb yno – byddwn yn mynd adref ac mae'n sych."

"Rydym ni'n cael stormydd mellt a tharanau, ond maent yn gallu bod yn lleol iawn. Gallwn gael storm ar y fferm, heb unrhyw beth ymhen milltir i lawr y ffordd, ac mae'n digwydd ar hap."

Wedi dweud hynny, roedd teimlad bod yr heriau'n debyg iawn ond bod gwahanol ffermwyr yn gallu mynd i'r afael â nhw i wahanol raddau –

"Ar un ochr i mi mae fferm laeth gymharol fawr sydd wedi buddsoddi'n drwm dros y blynyddoedd diwethaf. A byddem yn dweud eu bod wedi ymdopi'n well gyda rhai o'r heriau tebyg a welwyd gennym ni... Maen nhw'n gallu cynnal systemau draenio tebyg i'r oes Fictoria yn y caeau, yn well na ni... ond mae un peth yn sicr, pan fyddwch chi'n mynd i'r mart, mae pawb yn cwyno am yr un pethau, sef mwd, defaid cloff, gwynt. Felly, rwy'n teimlo ein bod ni i gyd yn yr un cwch i raddau o ran ein profiadau gyda'r tywydd."

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod effeithiau'r tywydd yn amrywio yn ôl y math o bridd a daearyddiaeth ffisegol – hyd yn oed o fewn rhanbarth. Roeddent yn pwysleisio'r angen am atebion wedi'u teilwra ar gyfer ffermydd penodol. Fodd bynnag, bydd tywydd eithafol yn dal i gael effaith waeth beth fo'r amodau sylfaenol, ond mewn gwahanol ffyrdd –

"Mae'r priddoedd gartref yn fas iawn ac rydym ni'n rhentu gwahanol flociau, ac yn amlwg mae pob un yn cyflwyno ei heriau ei hun. Mae hyn oherwydd y tywydd eithafol unwaith eto am wn i... mae'r ardaloedd gwlyb yn aros yn wlyb a'r ardaloedd sych yn llosgi."

(Wrth siarad gyda ffermwr 'cyfagos') "Rwy'ti'n cadw gwartheg Limousin, maen nhw dan do am hanner y flwyddyn... Ond mae fy nhir i ychydig yn sychach na dy dir di, ac rydym ni drws nesaf i'n gilydd... byddai modd i mi gadw gwartheg allan drwy'r flwyddyn."

4.3.2 Arferion ffermio ac ymyriadau mewn ymateb i'r newidiadau a arsylwyd mewn amodau amgylcheddol (C2)

4.3.2.1 Parodrwydd i newid a'r angen i fod yn ymatebol

Ar draws pob un o'r gweithdai, bu cyfranogwyr yn trafod sut maent yn addasu eu harferion i ymateb i bwysau sy'n newid. Yn aml, mae'r pwysau hyn yr un mor bwysig o safbwynt economaidd ag o safbwynt amgylcheddol – er enghraifft, ceisio cynnal busnes hyfywr wrth wynebu costau cynyddol, heriau'n ymwneud â rheoli llafur a gofynion amser sylweddol. Fodd bynnag, cafwyd ymdeimlad cryf bod unrhyw addasiadau hefyd yn cael eu siapio gan y newid yn yr hinsawdd, sy'n her ar gyfer y sector amaethyddol. Mewn llawer o achosion, nodwyd bod graddau'r newidiadau a wnaed yn eithaf sylweddol. Roedd cyfranogwyr yn disgrifio eu defnydd o arbrofion maes parhaus (yn ffurfiol drwy raglenni megis rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio ac yn annibynnol), ac mae llawer o ffermwyr yn mireinio eu systemau'n barhaus. Roedd y trafodaethau yn ystod y gweithdai'n adlewyrchu'r ffaith bod gan lawer o gyfranogwyr feddylfryd blaengar, rhagweithiol ac ymrwymedig, ac yn barod iawn i arbrofi gyda syniadau newydd.

Un o'r themâu amlwg ymhlith sylwadau cyfranogwyr oedd yr angen i fod yn fwy sylwgar ac ymatebol i newidiadau yn yr hinsawdd, gan gynnwys newidiadau mewn patrymau tywydd a risgiau sy'n codi. Roedd llawer o ffermwyr yn cyfeirio at y ffaith nad yw'r dull o weithio'n unol â'r "llawlyfr" bellach yn berthnasol.

4.3.2.2 Newidiadau'n ymwneud â'r stoc

Roedd llawer o gyfranogwyr y gweithdai (ffermwyr 'C' yn bennaf; gweler Ffigur 1 am ddisgrifiad) yn adrodd newidiadau yn niferoedd eu stoc, yn aml wedi'u hadlewyrchu yn erbyn newidiadau hanesyddol a hirdymor – e.e., taliadau fesul pen fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i gynyddu niferoedd stoc, yr oedd llawer o ffermwyr bellach yn ei wyrdroi. Roedd llawer o ffermwyr yn adrodd gostyngiad mewn niferoedd stocio dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn lleihau'r pwysau ar y tir ac adeiladu gwytnwch y fferm, mewn ymateb i'r newidiadau a drafodwyd yn flaenorol (megis tir gwlypach, cyfyngiadau o ran tyfu glaswellt). I'r gwrthwyneb, roedd cyfranogwyr eraill yn nodi eu bod yn cynyddu niferoedd da byw er mwyn gwneud mwy o elw. Yn ogystal, bu sawl cyfranogwr yn trafod newidiadau mewn systemau o ran y mentrau ar y fferm, a newid system ochr yn ochr â newidiadau'n ymwneud â brid/geneteg am sawl rheswm –

“Roedd gennym ni fwy o stoc nag oedd y tir yn gallu ei gynnal, gan nad oes gennym y tir gorau. Fe welsom ni gyfnodau o bwysau yn ystod y flwyddyn lle bu'n rhaid i ni roi porthiant er mwyn gwneud iawn am bethau...” [C]

“...roedd gennym ni fuches sugno... yn y sied o fis Tachwedd hyd at fis Ebrill. Nawr, rydym wedi dychwelyd i'r ffordd yr oedd fy nhad-cu'n gwneud pethau, sef cadw gwartheg llai o faint yn pwyso oddeutu 400–450kg yn hytrach na 600kg. Maen nhw'n gwneud llawer llai

o annibendod. Felly, ie, rwy'n gweld ein bod ni'n camu'n ôl mewn amser rhywfaint ar y fferm fynydd, ac mae'r holl ffermydd cyfagos yn gwneud yr un peth..." [C]

"Ni allwn weld bai ar y rhai sy'n dymuno arallgyfeirio a dechrau godro; maen nhw'n gallu tyfu mwy o laswellt (nawr bod y gaeafau'n fwynach)." [C]

(Gan gyfeirio at newid i gadw moch ar y fferm). "Roeddem ni'n pesgi tua 500 o wartheg y flwyddyn yn y gorffennol... ond fe wnaethom ni eu gwaredu gan nad oeddent yn hyfyw yn ariannol bellach ac roeddem ni'n dal i fod eisiau'r tail... byddai fy nhad bob amser yn prynu P a K ar gyfer y cnydau yn y gorffennol, ond nid ydym yn prynu dim erbyn hyn." [U]

"Ar un cyfnod roedd gennym 2,500 o famogiaid, a hynny'n debygol o fod wedi cael ei arwain gan y taliad fesul pen, ac rydym wedi gostwng y niferoedd dros y blynyddoedd. Rydym ni'n ceisio gwneud yn well gyda llai i fod yn onest... rydym wedi buddsoddi mwy mewn gwell geneteg. Ac nid ydym yn cael ein harwain gan y cyfanswm. Ceisio canolbwyntio ar yr ansawdd..." [C]

"Rydym ni nawr eisiau edrych ar geisio bod yn fwy effeithlon gyda'r defaid. Fe wnaethom ni gynnal profion DNA ar bob un ohonynt ddwy flynedd yn ôl a phwyso'r ŵyn. Rydym ni'n sganio yfory, felly bydd unrhyw famogiaid tenau'n mynd at hwrdd terfynol. Rydym ni'n llawer mwy llym gyda'n polisiau bridio; nid ydym eisiau cadw unrhyw anifail nad yw'n perfformio." [C]

Roedd llawer yn trafod newid amser wyna a lloia i ymateb i'r tywydd ac argaeledd glaswellt. Pennwyd bod newidiadau yn amodau'r farchnad a rheoli llif arian parod dros y flwyddyn yn ffactor allweddol ochr yn ochr â'r newid yn yr hinsawdd a'r pwysau amgylcheddol cysylltiedig –

"Fe wnaethom ni wthio ein tymor wyna yn ôl eleni, gan ei bod wedi bod mor sych ar adegau yn ystod yr haf lle nad oedd digon o laswellt i droi mamogiaid at yr hyrddod. Felly, mae hynny'n un enghraifft ymarferol o sut mae'n rhaid i chi addasu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd." [Y]

4.3.2.3 Rheoli priddoedd, cnydau, glaswelltir a phori

Roedd pridd fel elfen sylfaenol o systemau ffermio, ac o ganlyniad, rheolaeth pridd, yn thema allweddol a nodwyd ar draws y gweithdai o ran addasu i amodau sy'n newid. Roedd llawer o ffermwyr yn dweud eu bod wedi mabwysiadu dulliau o drin y tir cyn lleied â phosibl a drilio uniongyrchol i leihau cywasgiad pridd a phroblemau erydu, yn ogystal â defnyddio cnydau gorchudd i osgoi pridd moel. Roedd pwysigrwydd profi'r pridd a dadansoddi proffil y pridd, gan gynnwys ei gyfansoddiad biolegol (yn ogystal â chemegol) yn thema gyffredin ar draws y gweithdai. Roedd llawer o newidiadau ymarferol yn ymwneud â'r pridd yn gysylltiedig â rheoli cnydau/glaswelltir a phori – e.e., amrywio amseriad pori i leihau problemau potsio, gan ddefnyddio maetholion sydd eisoes ar gael ar y fferm –

“Rydym ni wedi mynd i asesu proffil y pridd yn fwy na’i gyfansoddiad cemegol. Rydym ni wedi newid o fod yn fferm laeth i gadw buches biff... Roeddem ni’n cynhyrchu cymaint o slyri pan oeddem ni’n godro, a dim cymaint o dail, a oedd yn effeithio’n negyddol ar broffil y pridd dros amser... nid oedd gennym lawer o bryfed genwair ac roedd yr awyru’n wael iawn. Fe wnaethom ni geisio cywiro hyn dros amser drwy ddefnyddio ychydig mwy o dail fel bod y pryfed genwair yn gallu gwneud eu gwaith fel yr oeddent yn ystod cenedlaethau blaenorol. Hefyd, pan rydym ni’n ailhadu, rydym yn ceisio defnyddio oged bŵer i gadw cymaint o garbon â phosibl yn y pridd.” [C]

Gyda phwyslais cynyddol ar gyflwr y pridd, daeth rheoli slyri a thail i’r amlwg fel thema gysylltiedig; yn enwedig sut mae newid mewn patrymau tywydd yn effeithio ar storio ac amser gwasgaru, yn ogystal â defnyddio’r maetholion hyn ar y fferm yn effeithiol. Er bod y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn amlwg yn ffactor pwysig sy’n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn; mae’r newid yn y tywydd, amodau’r tir ynghyd â chynlluniau a chostau seilwaith hefyd yn dylanwadu ar y penderfyniadau hyn –

“...dwyllydd yn ôl bu’n rhaid i ni fuddsoddi mewn sied i gadw tail buarth, lle byddem wedi hoffi gwario ein harian ar adeiladu sied i gadw’r stoc. Ond mae’n sied gwerth £36,000 i gadw tail buarth am ychydig fisoedd, ac yna mae’n wag am oddeutu chwe mis o’r flwyddyn. Felly mae’n eithaf anodd cyfiawnhau taliad o’r fath, ond dyna’r math o heriau sy’n ein hwynebu gyda blwyddyn wlypach hefyd.” [U]

Roedd sawl ffermwr yn dweud eu bod wedi treialu dulliau newydd i sicrhau’r cynhyrchiant glaswellt a’r cynnydd pwysau byw gorau posibl. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu gwahanol systemau pori – e.e., cylchdro, pori mewn grwpiau a phori sribedi, gan ailhadu â chymysgeddau hadau mwy amrywiol – e.e., gwyndonnydd amrywogaeth, cynnwys meillion a chynnal gorchudd glaswellt uwch, yn ogystal â mabwysiadu egwyddorion amaethyddiaeth adfywiol (e.e., tarfu cyn lleied â phosibl ar y pridd a chynyddu amrywiaeth planhigion). Roedd hyn yn aml yn cael ei wneud ar y cyd â Cyswllt Ffermio neu drwy grwpiau trafod, lle’r oedd ffermwyr yn rhannu syniadau ac yn archwilio pa ddulliau fyddai fwyaf addas ar gyfer eu ffermydd eu hunain. Roedd hyn yn nodweddiadol o’r cyfranogwyr ‘C’ ac ‘U’.

“Rydym wedi gosod bloc 100 erw o bori cylchdro ‘techno-grazing’, ac rydym wedi gallu sicrhau cynnydd o 30% ym maint y fuches ar yr un faint o dir, ac wedi gallu lleihau mewnbynnau. Rydw i hefyd wedi sylw bod y llwyth gwaith wedi gwella [lleihau]...” [R]

“Fel y mae llawer o bobl eraill wedi bod yn ei ddweud, rydym ni wedi bod yn gwneud tipyn gyda gwyndonnydd llysieuol a hau dros y prif gnwd i gael porfa fwy amrywiol er mwyn i ni allu goroesi hafau fel y llynedd...” [U]

Roedd rhai’n disgrifio eu bod wedi addasu eu dull presennol ar gyfer cadw da byw dan do, yn gysylltiedig â phatrymau bridio i sicrhau bod y glaswellt yn gallu ymdopi gyda’r tywydd sy’n fwyfwy amrywiol. Roedd enghreifftiau’n cynnwys dod â gwartheg i mewn yn gynt er

mwyn gwarchod twf y glaswellt dros y gwanwyn, a lloia yn yr hydref i leihau pwysau pori dros yr haf. Roedd eraill yn nodi eu bod wedi cyflwyno cnydau india corn neu gnydau gwraidd i'w systemau, gyda chanlyniadau cymysg o ganlyniad i addasrwydd amrywiol y tir –

“Rydym wedi gaeafu mwy ar gnydau porthiant dros y gaeaf yn hytrach na rhentu tir oddi ar y fferm yma ac acw. Mae gaeafau gwlypach yn gwneud hynny'n fwy heriol, ond mae'n golygu ein bod yn gallu eu cadw gartref am gyfnod hwy.” [C]

“Rydw i wedi gweld yn gyffredinol yn Sir Benfro dros yr 20–30 mlynedd diwethaf bod mwy o india corn yn cael ei hau gan fod buchesi wedi mynd cymaint mwy. Maen nhw angen mwy o borthiant ac mae india corn yn rhyw fath o yswiriant rhag haf sych gan fod india corn fel arfer yn perfformio'n weddol yn ystod hafau sych. Os bydd yr haf yn wlyb, bydd eich silwair glaswellt yn elwa o hynny. Mae wedi newid y dirwedd yn Sir Benfro gan fod india corn wedi cael ei dyfu yn yr ardaloedd y byddech yn eu galw'n ymylol ar gyfer tyfu india corn yn y gorffennol.” [U]

“Gyda'r math o batrymau tywydd yr ydym yn eu gweld, mae tyfu cnydau gaeaf neu blannu grawn yn yr hydref a rôp hadau olew yn cynnig mwy o wytnwch rhag y newid yn yr hinsawdd, oherwydd os byddwch chi'n hau cnwd gwanwyn fel y llynedd, a oedd yn cael trafferth tyfu oherwydd y gwanwyn sych – roedd y cynnyrch yn is, ond gyda chnydau sydd yn y ddaear dros y gaeaf, roedden nhw ar y droed flaen ac yn gallu ymdopi'n well. Felly mae hynny'n bwysig mae'n debyg er mwyn datblygu gwytnwch i'r hinsawdd, y cnydau dros y gaeaf.” [U]

4.3.2.4 Rheoli dŵr

Roedd rheoli dŵr yn bwnc trafod amlwg ar draws y gweithdai, gyda llawer o gyfranogwyr yn nodi bod hyn yn bwysau newydd, annisgwyl o bosibl. Roedd y pwysau hwn yn arwain at fabwysiadu arferion newydd, costus, gan gynnwys cynaeafu dŵr glaw, dyfrhau, gosod tyllau turio a gorfod ymestyn seilwaith dŵr ar y fferm. Roedd rhai ffermwyr hefyd yn ffensio ffosydd ac afonydd i reoli mynediad da byw, yn enwedig lle bo cyrsiau dŵr yn dueddol o sychu yn yr haf neu gael eu potsio yn y gaeaf. Roedd eraill yn cysylltu newidiadau i'w systemau pori a chnydau gyda rheolaeth dŵr –

“Rydym ni wedi gorfod buddsoddi llawer yn ein system ddŵr, rydym ni ar gyflenwad dŵr ffynnon. Mae hynny oherwydd yr hafau sych iawn – rydym wedi cael un neu ddau gyfnod sych ers i mi ddychwelyd i ofalu am y fferm. Felly, rydym ni wedi gorfod buddsoddi i sicrhau bod digon o ddŵr ar gael drwy gydol y flwyddyn. Ond hefyd ar y system ddarparu ei hun, ar ochr arall y raddfa, pan fo gormod o ddŵr o gwmpas, sicrhau nad yw'r anifeiliaid yn potsio popeth wrth fynd i yfed. Rydym ni wedi gorfod gosod llawer mwy o gafnau dŵr mewn llawer mwy o leoedd.” [C]

“Rydym ni wedi defnyddio mwy o feillion coch – mae hynny i'w weld yn ein helpu mewn tywydd sychach.” [U]

4.3.2.5 Seilwaith gwyrdd

Roedd llawer o gyfranogwyr yn cydnabod buddion coed a gwrychoedd ar gyfer cysgod ar eu ffermydd, gyda rhai sylwadau'n ymwneud ag ailsefydlu gwrychoedd a oedd wedi cael eu gwaredu yn y gorffennol am amrywiaeth o resymau. I rai cyfranogwyr, roedd ymwybyddiaeth o fuddion ychwanegol coed a gwrychoedd ar y fferm, gan gynnwys er mwyn rheoli dŵr ffo a gwella ymdreiddiad dŵr ar dir mwy serth ac agored. Er bod rhywfaint o'r tensiynau'n ymwneud â'r cynigion plannu coed drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael eu trafod, roedd y drafodaeth yn bositif ar y cyfan o ran egwyddor plannu'r goeden iawn yn y man iawn –

“Rydym ni'n bwriadu ailsefydlu gwrychoedd cyn gynted â phosibl i fod yn onest, oherwydd gyda'r system bori grwpiau sydd ar waith gen i ar y funud, yn ddelfrydol, mae angen i mi gael caeau oddeutu 31/2 i 41/2 erw, rhywbeth felly... gyda'r hafau poeth yr ydym yn eu profi, rwy'n credu byddai mannau cysgodol yn y cae, yn enwedig ar gyfer gwartheg ac ati, yn ddefnyddiol iawn. Helyg a Gwern a choed penodol felly, mae'n hysbys eu bod yn cynnig nodweddion anthelminitig.” [U]

“Rydym ni wedi cael enghreifftiau lle mae landlordiaid yn llythrennol wedi gwerthu'r tir o dan y ffermwr tenant ac wedi plannu coed gan mai dyna'r ffordd hawdd o wneud arian. Ac mae'n ddigalon iawn i'w weld... Ond ar y pegwn arall, mae'n eithaf da. Rydym ni wedi gweld nifer dda o ffermydd... lle mae pobl yn plannu'r coed cywir yn y lle cywir... yn eu plannu ar hyd cyrsiau dŵr, felly mae hynny'n cynnig buddion ychwanegol.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

4.3.2.6 Lleihau costau – mewnbynnau a gofynion llafur

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn anelu at leihau costau seilwaith, ond roedd rhai'n codi pryderon ynghylch newidiadau gorfodol o ran cyfnodau cadw anifeiliaid dan do o ganlyniad i batrymau tywydd anrhagweladwy. Roedd rhai'n codi pryderon ynglŷn â dibynnu ar gontractwyr gyda chyfnodau tynnach oherwydd y tywydd. Roedd sawl ffermwr yn anelu at leihau eu gofynion o safbwynt mewnbynnau, yn enwedig gwrteithiau synthetig a phorthiant a brynir i mewn, er mwyn bod yn fwy hunangynhaliol, gyda rhai unigolion yn newid eu systemau (e.e., cadw stoc allan dros y gaeaf) er mwyn cyflawni hyn. Mae hyn yn gysylltiedig â thystiolaeth flaenorol yn ymwneud â newid arferion stocio a phori. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ffermwyr yn adrodd eu bod yn gorfod dychwelyd i gadw stoc dan do dros y gaeaf o ganlyniad i dywydd cynyddol wlyb. Roedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm (a threulio anaerobig) yn rhan o'r sgwrs hon, ac er bod rhai ffermydd yn gweithredu hyn, nid oedd yn rhan arwyddocaol o'r trafodaethau. Cafwyd ymdeimlad cryf bod gan ffermwyr fwy o 'reolaeth' o'u systemau, ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o fod yn wydn.

Thema gyffredin arall oedd cyfranogwyr yn adrodd eu bod yn cadw golwg mwy manwl ar eu helw ac yn gwaredu elfennau costus o'u busnesau (e.e., porthiant, mewnbynnau, staff) –

“Rydym ni’n tyfu, bob amser yn chwilio am gnydau amgen, rydym ni’n tyfu amrywiaeth o gnydau nawr, nid glaswellt a silwair yn unig. O ran pethau fel meillion, rydym ni wedi gostwng o oddeutu 200 kilo o N fesul hectar ar gyfartaledd i oddeutu 140 erbyn hyn, ac mae’r gwyndonnydd meillion coch yn cael tua 40 i 50 kilo yn unig bob blwyddyn. Mae hyn yn arwyddocaol i’r busnes, o safbwynt amgylcheddol ac ariannol.” [C]

Roedd llawer yn nodi bod monitro a meincnodi eu busnesau’n allweddol, gan gynnwys geneteg a pherfformiad; a hyd yn oed y tywydd. Roedd yn ddiddorol nodi pa glystyrau ffermwyr (Ffigur 3) oedd yn gwneud hyn – ‘U’, ‘C’ ac ‘R’ yn bennaf, sy’n cyd-fynd â’r ffactorau sy’n sbarduno’r segmentau hyn a’u dyheadau nodweddiadol. Roedd monitro yn cael ei ystyried nid yn unig fel ffordd o fod yn fwy cystadleuol, ond hefyd fel ffordd o fireinio eu systemau eu hunain i sicrhau’r perfformiad gorau posibl gan y busnes dan yr amgylchiadau a gyflwynwyd –

“Yn bendant yn meincnodi mwy. Rydym ni hefyd yn defnyddio technoleg o safbwynt systemau cwmwl a phwyso a phethau felly... rydym ni wedi manteisio ar grantiau effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru... yn enwedig gan ein bod ni’n dau’n gweithio oddi ar y fferm, mae’n fwy effeithlon, ond dylem weld buddion ariannol yn y pen draw hefyd.” [U]

“Mae meincnodi yn eich erbyn chi eich hun mewn blynyddoedd blaenorol yn wych. Mae’n hynod ddefnyddiol. Fel yr ydym ni’n ei wneud drwy Cyswllt Ffermio fel grŵp. Felly, mae pawb yn gallu gweld ffigyrau ei gilydd ac mae temtasiwn i edrych ar bawb arall yn y grŵp busnes o ran faint maen nhw’n ei wneud fesul hectar? Pam nad ydw i’n cael hynny? Ond nid yw hynny’n bosibl gan fod pob fferm yn wahanol, ac mae ganddyn nhw gyfleoedd gwahanol.” [U]

Soniodd sawl ffermwr am ostwng eu gofynion llafur drwy newid i fridiau stoc sy’n haws i ofalu amdanynt sydd angen llai o waith cynnal a chadw. Soniodd llawer o gyfranogwyr hefyd am symleiddio eu systemau gyda’r nod o leihau costau, sy’n gysylltiedig yn aml â ffermwyr yn gweithio oddi ar y fferm, a gwelliannau o ran iechyd a lles anifeiliaid.

Un thema allweddol drwy gydol trafodaethau’r cyfranogwyr ynghylch addasu i newid oedd yr angen i fabwysiadu arferion rheoli wedi’u teilwra ar gyfer anghenion penodol y fferm.

Pwynt cyffredin a godwyd gyda’r amrywiaeth o newidiadau a wnaed oedd yr angen i addasu i ofynion eu ffermydd penodol eu hunain, ac nad yw opsiwn ‘addas i bawb’ yn ymarferol. Roedd cyfranogwyr o glystyrau ‘M’ ac ‘Y’ yn benodol yn pwysleisio’r pwynt hwn. Roedd y pryder hwn yn aml yn deillio o awydd i arfer ymreolaeth unigol wrth wneud penderfyniadau, gan bwysleisio gwybodaeth fanwl am anghenion eu ffermydd eu hunain. Roedd rhywfaint o’r drafodaeth hon yn adlewyrchu ymatebion i ofynion polisi, gan fynegi rhwystredigaeth fod angen i gynlluniau a mecanweithiau cymorth fod yn ddigon hyblyg ar

gyfer gwahanol anghenion, a galluogi ffermwyr i gyflwyno mesurau sy'n addas ar gyfer eu ffermydd –

“Rwy’n credu ei fod yn ymwneud ag asesu’r fferm fel uned unigol. Rwy’n credu bod llawer o gymharu wedi bod dros y 10–15 mlynedd diwethaf, ond mae’n rhaid asesu fferm ar ei phen ei hun, ei chryfderau, ei gwendidau a’r hyn sy’n mynd i lwyddo ar y fferm. Ni fydd yr hyn sy’n llwyddo yma’n llwyddo mewn mannau eraill... roedd yn ‘un opsiwn i bawb’ yn y gorffennol, ond mae’r dull bellach wedi’i deilwra fwy ar gyfer y fferm.” [M]

4.3.2.7 Arallgyfeirio a gweithio oddi ar y fferm

Bu rhai o’r cyfranogwyr yn trafod newid llwybrau i’r farchnad neu archwilio ffrydiau incwm newydd er mwyn gwneud yr incwm gorau posibl (e.e., gwely a brecwast da byw, casglu eich cynnyrch eich hunain, cadw tyrcwn). Mewn rhai achosion, roedd y newidiadau hyn yn ymateb yn uniongyrchol i amodau amgylcheddol sy’n newid (fel gyda’r newid o dir â’r/llaeth a nodwyd yn gynharach). Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn nodi bod y prif sbardun ar gyfer y newidiadau hyn yn economaidd. Mewn achosion eraill, cafwyd cyfuniad o opsiynau i ymateb i wahanol anghenion – e.e., dod â da byw i mewn ar system wely a brecwast i sicrhau incwm ychwanegol, ond hefyd er mwyn elwa o’r tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid hyn, ar amser lle bo costau cadw eu hanifeiliaid eu hunain yn rhy uchel.

Un thema gyffredin, a thestun rhwystredigaeth yn aml, oedd yr angen i arallgyfeirio neu chwilio am waith arall oddi ar y fferm i leihau risg ariannol i’r busnes. Trafodwyd goblygiadau hyn ar argaeledd llafur, gyda llawer o benderfyniadau ar y fferm yn seiliedig ar y ffaith bod y cyfranogwyr hefyd yn gweithio oddi ar y fferm. I rai, roedd y cwestiwn ynghylch teulu ac ansawdd bywyd hefyd yn codi yma.

4.3.2.8 Technoleg

Nodwyd bod defnyddio technoleg yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn monitro a chynorthwyo i wneud penderfyniadau ar y fferm drwy gydol y gweithdai (gyda gwahanol glystyrau ffermwyr, nid y cyfranogwyr ‘C’ yn unig fel y byddai’r model segment yn ei awgrymu). Soniwyd am amrywiaeth o dechnoleg, o ddefnyddio meddalwedd ac apiau ar y cyfrifiadur a ffonau symudol, i systemau EID a choleri heb ffensys. Cyfeiriodd llawer o ffermwyr at y cysylltiad rhwng technoleg a geneteg da byw a gwelliannau mewn perfformiad. Roedd rhai cyfranogwyr yn nodi bod technoleg yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy’n cefnogi newid ym mhob agwedd ar ffermio. Fodd bynnag, roedd llawer hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd troi at arferion ffermio traddodiadol lle bo angen. Roedd cyfranogwyr yn y gweithdy i’r diwydiant yn benodol yn codi pryderon ynghylch y lefel syfrdanol o ddata sydd ei angen gan ffermwyr at wahanol ddibenion, a’r diffyg cysondeb a’r diffyg aliniad rhwng gwahanol ofynion. Codwyd pryderon nad yw hyn yn ddefnyddiol i ffermwyr wrth wneud penderfyniadau –

“Nid dweud wrth bobl beth sydd angen iddynt ei wneud a ble, ond yn hytrach, darparu’r wybodaeth fel y gall pobl wneud penderfyniadau mwy gwybodus a bod y penderfyniadau hynny’n cyd-fynd â’i gilydd – rwy’n credu bod hynny’n rhan o’r broblem ar y funud. Nid ydym yn edrych ar yr un data. Felly, rydym ni’n cynghori ac yn ariannu gwahanol bethau mewn ffordd.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

4.3.3 Rhagolygon at y dyfodol ar gyfer cynlluniau ffermio (C3)

Fel gyda chwestiynau blaenorol, roedd ymatebion yn canolbwyntio ar gyd-destunau ffermydd penodol yn y lle cyntaf cyn ehangu i ystyried goblygiadau ar gyfer y sector ehangach. Roedd tipyn o orgyffwrdd gyda thrafodaethau o dan Gwestiwn 2 ynghylch newidiadau diweddar neu barhaus, yn enwedig mewn perthynas ag arferion penodol yr oedd ffermwyr yn bwriadu eu mabwysiadu yn y dyfodol. Yn gyffredinol, roedd y mathau o addasiadau a ragwelwyd yn dueddol o adlewyrchu parhad yn hytrach na gwahaniaeth sylweddol i’r addasiadau a oedd eisoes ar waith. Nid yw hyn yn awgrymu diffyg parodrwydd i ddysgu, arbrofi nac arloesi – yn wir, roedd ymatebwyr yn dangos agwedd rhagweithiol iawn yn y trafodaethau – ond roedd cynlluniau at y dyfodol yn cael eu fframio’n raddol yn hytrach na thrawsnewidiol ar y cyfan. Roedd lleiafrif bach o’r ffermwyr yn disgrifio cynlluniau mwy uchelgeisiol neu radical, megis gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu technolegau neu ddulliau newydd, ond nid oedd enghreifftiau o’r fath yn nodweddiadol. Yn yr un modd, er bod rhai ymatebwyr yn trafod potensial ar gyfer newidiadau mwy sylweddol ar draws y sector (er enghraifft, newidiadau i faint ffermydd ac uno, lefelau newydd ddyfodiaid, y defnydd o dechnoleg, arallgyfeirio busnesau), anaml iawn yr oedd y trafodaethau’n ymestyn i fodelau cynhyrchiant, llafur neu gadwyni cyflenwi gwahanol iawn.

Roedd y cymhellion sy’n sylfaen i newidiadau arfaethedig yn gyson gyda’r rhai a drafodwyd yn gynharach – h.y., yr angen i ymateb i bwysau sy’n esblygu ac i wella gwytnwch a hyfywedd hirdymor busnesau. Er bod prosesau gwneud penderfyniadau a dehongliad o wytnwch yn cael eu harchwilio’n fanylach mewn adran ddiweddarach, mae’n werth nodi yma fod pwysau’n cael ei ystyried yn gyffredinol mewn modd cyfannol a rhyng-gysylltiedig. Roedd y cysyniad o wytnwch yn cael ei ddeall yn nodweddiadol yn yr ystyr economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, gydag ystyriaethau ynghylch yr hinsawdd yn cael eu hintegreiddio ochr yn ochr â sbardunau eraill yn hytrach na chael eu trin fel ffactor unigol.

Roedd yn ymddangos bod gan y rhan fwyaf o ffermwyr syniadau eithaf datblygedig o’u cyfeiriad at y dyfodol, a’u bod wedi ystyried hyn cyn y drafodaeth yn aml, gan awgrymu bod cynllunio ar gyfer y dyfodol yn rhan o’u harferion busnes rheolaidd. Er bod nifer fach yn nodi nad oeddent yn rhagweld newidiadau sylweddol, roedd y mwyafrif yn mynegi amcanion clir wrth edrych tua’r dyfodol. Ar yr un pryd, roedd llawer yn mynegi ymdeimlad cryf o ansicrwydd ynghylch y dyfodol. Er eu bod yn gallu trafod newidiadau arfaethedig dros y pum mlynedd nesaf, roedd ymestyn y gorwel i ugain mlynedd yn cael ei ystyried yn

llawer mwy ansicr. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr ansicrwydd hwn yn cael eu harchwilio mewn rhagor o fanylder mewn adran ddiweddarach.

Er mwyn dangos cyffredinolrwydd newidiadau penodol a ragwelir a'r pryderon cysylltiedig yr oedd ffermwyr yn ceisio mynd i'r afael â nhw, rhoddir enghreifftiau dangosol o dan yr isbenawdau isod.

4.3.3.1 Newidiadau i niferoedd da byw a buddion effeithlonrwydd

Er gwaethaf llawer o drafodaeth yn y gorffennol ynghylch gostwng niferoedd da byw i sicrhau gwytnwch, roedd llawer o gyfranogwyr yn ystyried ehangu er mwyn sicrhau proffidioldeb, a hynny'n aml yn cael ei arwain gan gynlluniau olyniaeth. Roedd rhai'n cymryd mwy o dir er mwyn eu galluogi i gynyddu niferoedd stoc –

“Rydym wedi edrych ar ddyblu niferoedd y gwartheg a threblu allbynnau... Mae gen i dair merch. Rwy'n bwriadu rhoi'r busnes mewn sefyllfa lle gallwn ei rannu'n dair rhan a'i fod yn hyfyw” [C]

Roedd rhai'n anelu at barhau gyda'r tueddiad o ostwng niferoedd y stoc i ad-drefnu niferoedd er mwyn eu galluogi i leihau costau yn y dyfodol, neu newid arferion da byw mewn modd yr oeddent yn ystyried y byddai'n fwy addas ar gyfer y tir. Mewn rhai achosion, roedd gostwng niferoedd stoc yn gysylltiedig yn benodol ag ystyriaethau llafur – nid fel ffordd o leihau costau yn unig, ond hefyd mewn ymateb i bwysau ymddeoliad neu iechyd, neu i greu capasiti er mwyn galluogi gweithgareddau busnes eraill i dyfu.

4.3.3.2 Technoleg

Roedd y defnydd o dechnoleg yn cael ei drafod yn aml mewn perthynas â gwella effeithlonrwydd a rheolaeth da byw, yn enwedig o ran gwelliannau geneteg. Cafodd technoleg ei hamlygu'n ddiweddarach wrth drafod ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd llawer o gyfranogwyr yn cydnabod rôl gynyddol technoleg –

“Roedd ffermio'n arfer bod yn ddwys o ran llafur, ac yna, fe wnaethom ni symud i gyfnod lle'r oedd y mewnbynnau'n ddwys iawn... Rydym ni bellach yn symud i gyfnod lle mae ffermio'n dod yn ddwys o ran data. Felly, rydym ni'n dilyn y trywydd hwn i le mae'r data'n llawer pwysicach... Rwy'n gwybod bod llawer o ffermwyr yn dweud bod data'n grêt, ond peidiwch â thynnu eich llygaid oddi ar yr anifeiliaid. Ac yn bendant, rwy'n credu yn yr oes sydd ohoni pan fo'r holl dechnoleg hon ar gael ac yn gwella pob dydd, mae'r datblygiadau yr ydym ni wedi'u gweld dros y pum mlynedd diwethaf yn unig... Rwy'n credu bod angen ceisio cadw llygad ar hynny, ceisio parhau i ddysgu am bethau newydd ac yn berthnasol a dysgu sut i'w ddefnyddio fel mae'n ymddangos yn hytrach na chael eich gadael ar ôl. Rwy'n credu y bydd hynny'n un o'm prif bethau.” [C]

4.3.3.3 Rheoli'r borfa a'r seilwaith cysylltiedig mor effeithiol â phosibl

Roedd gwella rheolaeth o'r borfa a'r seilwaith cysylltiedig yn flaenoriaeth flaengar a nodwyd yn aml er mwyn addasu i aeafau gwlypach a hafau sychach. Roedd hyn yn cynnwys treialu gwahanol fathau o wyndonnydd a chylchdroadau i fagu gwynwch, ynghyd â chynhyrchu mwy o borthiant i gynnal hyfywedd pan nad oes modd dibynnu ar dwf glaswellt.

“Os bydd y patrymau’n parhau, bydd angen inni edrych ar dyfu – rydym wedi arbrofi yn y gorffennol gyda chnydau Maglys Rhuddlas, sy’n gwreiddio’n ddyfnach... cymysgeddau codlysiau erbyn hyn er mwyn cael gwahanol batrymau gwreiddio, oherwydd, yn amlwg, os oes gennych chi blanhigyn sy’n gwreiddio’n ddyfnach, gobeithio y bydd yn amsugno’r dŵr yn well am gyfnod hwy... Mae dyddiau systemau ungnwd wedi hen ddiflannu.” [U]

Cafwyd trafodaeth eang ynghylch y newid i batrymau cadw anifeiliaid dan do, gyda’r nod o leihau costau ac ymateb i bwysau’r tywydd, er, roedd pryderon ynghylch a fyddai modd cadw anifeiliaid allan yn ystod gaeafau gwlypach. Fodd bynnag, roedd rhai’n ystyried gaeafau mwynach fel rhywbeth cadarnhaol, gan eu bod yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer pori dros y gaeaf. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch colli tir yn gysylltiedig ag amodau gwlyb, llifogydd a chyfyngiadau draenio.

4.3.3.4 Iechyd y pridd

Roedd llawer o ffermwyr yn mynegi eu hawydd i ganolbwyntio ar gynnal neu wella iechyd y pridd, gan gynnwys drilio uniongyrchol, mabwysiadu egwyddorion ffermio adfywiol (fel y nodwyd yn flaenorol), ac mewn rhai achosion, roeddent yn nodi uchelgais i symud yn fwy tuag at yr hyn yr oeddent yn ei ddisgrifio’n systemau sy’n ‘canolbwyntio mwy ar garbon’ –

“Felly bydd gennym ddadansoddiad cyflawn o garbon dwfn (mewn priddoedd) fesul cae ar y fferm... gallwn ddechrau dadansoddi’r hyn sy’n digwydd yn ein priddoedd a sut mae hynny’n effeithio ar dwf gwreiddiau a sut mae mwynyddiad y planhigion yn gwella...” [C]

4.3.3.5 Ehangu coed a gwrychoedd

Bu sawl cyfranogwr yn trafod cynyddu gorchudd coed a gwrychoedd ar y fferm yn y dyfodol i ddarparu cysgod, ac mewn rhai achosion, i ailblannu coed a gollwyd yn ystod stormydd. Un pwynt a godwyd yn aml oedd y ffaith nad oedd plannu coed yn briodol ar bob fferm (gan adlewyrchu tensiynau a brofwyd mewn perthynas â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy). Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr hynny a oedd yn nodi plannu coed a gwrychoedd fel strategaeth yn y dyfodol yn bwriadu gwneud hynny gan ei fod yn cyd-fynd â’u blaenoriaethau eu hunain. Roedd ffermwyr a oedd wedi mabwysiadu systemau pori cylchdro hefyd yn amlygu’r angen ar gyfer cysgod digonol ym mhob padog, gyda newidiadau mewn systemau’n creu cyfleoedd ar gyfer gwrychoedd ychwanegol. Roedd cymorth grant yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn helpu i dalu’r costau cysylltiedig (fel y trafodir yn nes ymlaen).

“Fe wnaethom ni gynnal prosiect yn ymwneud â straen gwres mewn gwartheg godro yn ystod yr haf diwethaf, gyda chanlyniadau diddorol iawn. Ac o’r safbwynt hwnnw, pori padogau a chael mwy o goed i ddarparu mwy o gysgod yn y dyfodol – mae’n ateb hirdymor yn hytrach na thymor byr, ac os ydych chi’n edrych ar y genhedlaeth nesaf ac ati, mae’n bwysig iawn. Felly, adeiladu’r gwytnwch o fewn y busnes. Mae’n mynd i fod yn allweddol ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gyda’r ffordd mae pethau’n mynd gyda’r newid yn yr hinsawdd” [C]

4.3.3.6 Rheoli costau ac ystyriaethau elw ar fuddsoddiad

Roedd rheoli costau ac asesu elw ar fuddsoddiad yn codi fel thema gyffredin, gan adeiladu ar bwyntiau blaenorol ynghylch arbedion effeithlonrwydd a monitro. Roedd hyn yn adleisio o fewn trafodaethau o dan gwestiwn 2, lle’r oedd llawer o gyfranogwyr yn disgrifio’r angen cynyddol i redeg ffermydd yn fwy penodol fel busnesau –

“Mae gennym ni restr hir o bethau sydd angen i ni eu gwneud – mae beth bynnag sy’n ad-dalu gyflymaf yn mynd ar frig y rhestr... ac oherwydd ein bod ni i gyd yn gweithio hefyd, mae’n rhaid i ni wneud y gorau o hynny, X o oriau’n mynd i’r fferm.” [C]

“Nid oes modd i chi redeg fferm fel fferm bellach. Mae’n rhaid i chi redeg y fferm fel busnes... mae’n rhaid i bob anifail ar eich fferm dalu amdano ei hun erbyn hyn. Ac os nad yw’n gwneud hynny, mae’n rhaid iddo fynd.” [R]

Roedd cyfran fawr o’r ymatebwyr hyn yn ffermwyr ‘C’, sydd o bosibl ddim yn blaenoriaethu sicrhau’r incwm gorau posibl yn nodweddiadol, ond eto’n dangos tueddiadau arloesol cryf. Y tu hwnt i hyn, cafwyd ymatebion tebyg gan ffermwyr ‘R’ ac ‘U’, y byddai disgwyl iddynt ganolbwyntio ar sicrhau’r incwm gorau. Roedd llawer hefyd yn trafod yr angen i dalu mwy o sylw i ofynion y farchnad er mwyn sicrhau gwytnwch.

4.3.3.7 Arallgyfeirio

Roedd arallgyfeirio yn cael ei drafod yn aml fel ffordd o leihau risg drwy “beidio â rhoi eich holl wyau mewn un fasged”. Mae enghreifftiau’n cynnwys ynni adnewyddadwy, mentrau twristiaeth a gwerthu cynnyrch yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr y gweithdai hefyd yn amlygu’r heriau cysylltiedig, gan gynnwys gorlawnder y farchnad mewn rhai ardaloedd (twristiaeth – gwersylla, gwely a brecwast) a rheoliadau diweddar yn effeithio ar fythynnod gwyliau, yr ystyriwyd eu bod yn cyfyngu ar gyfleoedd. Er bod arallgyfeirio ffrydiau incwm yn cael ei ystyried yn eang fel rhywbeth hanfodol, roedd llawer yn mynegi rhwystredigaeth o ganlyniad i’r angen i weithio oddi ar y fferm neu reoli sawl busnes ar unwaith, gan adleisio pwyntiau a godwyd yn gynharach –

“Mae’n drueni mawr fod angen i’r diwydiant edrych ar arallgyfeirio er mwyn sicrhau llif arian parod... mae gennym ni bron i 500 o wartheg gartref i gyd... Byddech chi’n meddwl y byddai hynny’n ddigon, ond nid felly mae hi.” [R]

Roedd y cyfranogwyr a oedd yn canolbwyntio fwyaf ar arallgyfeirio'n dueddol o fod yn ffermwyr 'C', 'Y' ac 'U', sy'n nodweddiadol yn chwilio am syniadau, sgiliau neu dechnoleg newydd, fel y gellir ei ddisgwyl.

4.3.3.8 Materion yn ymwneud ag ymddeol ac olyniaeth

Roedd ymddeol ac olyniaeth yn codi fel ffactorau allweddol sy'n llywio cynlluniau at y dyfodol i lawer o'r cyfranogwyr. Roedd sawl ffermwr yn trafod sut yr oeddent yn bwriadu rheoli'r trawsnewidiad hwn – e.e., drwy gefnogi ac ystyried anghenion dwy aelwyd, cydbwysu gwaith oddi ar y fferm ar gyfer rhai aelodau o'r teulu neu archwilio syniadau busnes newydd i alluogi ymrwymiad ehangach o fewn y teulu. Roedd y bwriad i gynyddu proffidioldeb a gadael tir mewn "gwell cyflwr" yn aml yn gysylltiedig â'r posibilrwydd o'r genhedlaeth nesaf yn cymryd yr awenau er mwyn gwneud ffermio'n fwy hyfyw a deniadol iddyn nhw. Soniodd rhai cyfranogwyr fod y genhedlaeth nesaf yn gweithredu fel sbardun pwysig ar gyfer newid –

"Dros y pum mlynedd nesaf, cynyddu cynhyrchiant, ehangu. Mae angen cynyddu nifer y gwartheg, nifer y defaid. Fel y soniais, gyda'r mab yn dod i mewn i'r busnes, byddwn ni'n edrych ar y gwartheg stôr, ac mae honno'n fenter fawr sy'n talu ei gyflog... A'r cyfnod pontio... rydym ni'n hynod o lwcus gan fod gennym ni fab sy'n dod i mewn i'r busnes. Wn i ddim beth fydden ni'n ei wneud pe na bai rhywun yno – mae'n siŵr na fyddem ni'n gwneud hynny na fydden? Bydden ni'n parhau fel yr ydym ni." [Y]

Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod, a hynny gyda rhywfaint o dristwch, eu bod yn teimlo bod ffermio fel proffesiwn yn llai a llai deniadol yn gyffredinol, gan ei gwneud hi'n anodd denu pobl ifanc i'r diwydiant. Roedd ystyriaethau iechyd hefyd yn dod i'r amlwg mewn rhai o'r gweithdai, gyda ffermwyr hŷn yn disgrifio'r angen i leihau llwyth gwaith, gwneud gwaith fferm yn llai trwm yn gorfforol, neu symud tuag at ymddeoliad rhannol.

4.3.3.9 Rôl cynlluniau cymorth

Roedd cynlluniau grant a chymorth yn cael eu trafod yn aml, yn enwedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ochr yn ochr ag opsiynau ariannu eraill megis Tyfu er mwyn yr Amgylchedd. Pryder cyffredin oedd p'un a fyddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn darparu sicrwydd hirdymor, gyda llawer o gyfranogwyr yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch ansicrwydd parhaus. Roedd ymgysylltiad gyda chynlluniau a grantiau fel arfer yn gysylltiedig â dyheadau i ehangu gwrychoedd, mabwysiadu systemau pori neu gnydau mwy gwydn, neu fuddsoddi mewn offer i gynyddu gwytnwch. Bu rhai cyfranogwyr yn mynegi eu pryderon ei bod hi'n anodd ymgeisio ar gyfer cynlluniau a grantiau, neu fod cynnydd yn araf. Yn amlach, nid oedd cynlluniau'n cael eu hystyried yn briodol gan eu bod yn rhy ragnodol (e.e., nodwyd gofynion y gymysgedd hadau ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn benodol, gan fod llawer yn trafod gwyndonnydd amlrywogaeth fel dull mabwysiadu pwysig) –

“...pa gymysgeddau o wyndonnydd llysieuol a mathau o hadau fyddai’n addas ar gyfer gwahanol ffermydd. Nid oes un opsiwn yn addas i bawb, ond y perygl yw bod popeth yn cael ei roi mewn un fasged a’n bod yn ceisio creu un opsiwn sy’n addas i bawb heb ddigon o wybodaeth.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

“Mae’n rhaid i newidiadau yn y dyfodol gysylltu’r cnwd cywir neu’r system dda byw fwyaf addas gyda’r dopograffeg addas ar gyfer y fferm. Mae’n rhaid osgoi ceisio ffermio trwy daenlen!” [Dyfyniad gan y diwydiant]

Pwysleisiwyd fod yr angen am hyblygrwydd yn y cynlluniau, a’r gallu i deilwra i ffermydd unigol, yn bwysig iawn, ac ymestynnwyd i drafodaethau ar reoliadau. Roedd hyn yn nodedig o ran amseru a’r ffaith bod amodau amgylcheddol yn ddeinamig iawn (ac yn gynyddol felly gyda’r newid yn yr hinsawdd), ac mae angen eu harsylwi a’u haddasu bob blwyddyn yn hytrach na gweithio’n unol â manyleb benodol.

Roedd llawer o ffermwyr yn mynegi eu hawydd i beidio â bod yn ddibynnol ar gymorthdaliadau yn y dyfodol. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â’u huchelgeisiau i gynyddu elw (ynghyd â lefelau cynhyrchiant mewn rhai achosion). Roedd cymorthdaliadau’n cael eu hystyried yn aml i fod wedi arwain dull mwy hunanfodlon nad oedd wedi annog arloesi o fewn y sector. Roedd rhai cyfranogwyr yn cwestiynu a oedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’r polisi cysylltiedig yn sicrhau cydbwysedd digonol rhwng nodau amgylcheddol a chynhyrchiant, gan gysylltu hyn â phryderon ehangach ynghylch dyfodol y sector a diogeledd bwyd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn pwysleisio nad oeddent yn dymuno niweidio’r amgylchedd na chynhyrchu ar draul yr amgylchedd. Er bod rhai’n dangos ymrwymiad cryfach i wella’r amgylchedd, a hynny’n aml yn seiliedig ar eu tir neu werthoedd, roedd consensws eang na ddylai’r diwydiant gael ei ystyried yn ddiwydiant sy’n llygru at y dyfodol.

Gan barhau o bwynt blaenorol, roedd buddsoddi mewn agweddau megis seilwaith fferm (e.e., dŵr, pori, siediau, arallgyfeirio) yn nod ar gyfer y dyfodol i lawer, yn aml yn gysylltiedig â phwysau hinsoddol sy’n newid, yn ogystal â chynlluniau olyniaeth.

4.3.4 Safbwynt ffermwyr ar derminoleg newid yn yr hinsawdd, gwytnwch ac addasu

O fewn y gweithdai i ffermwyr, roedd llawer o gyfranogwyr yn defnyddio’r term ‘newid yn yr hinsawdd’ yn benodol wrth ystyried gofynion addasu presennol ac at y dyfodol, gan nodi ei fod yn dderbyniol ar y cyfan o fewn terminoleg y diwydiant amaeth ar gyfer y sampl yn yr astudiaeth hon. Roedd gwytnwch yn derm arall yr oedd llawer o ffermwyr yn ei ddefnyddio’n benodol heb ysgogiad –

“Rydym ni’n gwneud ein gorau i ddatblygu’r famog 50kg a fydd yn byw ar ddim ond aer, yn cynhyrchu gefeilliaid ac yn gwerthu am £150 yr un ar y farchnad. Ond rydym ni’n dal i weithio ar honno! Adeiladu gwytnwch o fewn y busnes yw ein prif nod mewn gwirionedd.” [U]

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd diwylliant o arbrofi'n gyffredin, gyda ffermwyr yn addasu eu systemau a'u busnesau'n rheolaidd. Nid oedd addasu'n gysyniad anghyfarwydd felly. Fel y trafodir ymhellach yn yr adran sy'n trafod y broses o wneud penderfyniadau, roedd ymateb i broblemau sy'n codi hefyd yn cael ei ddisgrifio'n eang, gan awgrymu bod addasu'n rhan o arferion ffermwyr o ddydd i ddydd. Roedd hefyd yn disgrifio ffermwyr fel pobl addasadwy iawn.

Roedd gwytnwch ac addasu'n cael eu mynegi ar ffurf gyfannol, gan gysylltu pwysau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar y ffermwr. Roedd cyfranogwyr yn disgrifio gwytnwch fel y gallu i addasu ar draws sawl gwahanol fath o bwysau rhyng-gysylltiedig, gan adlewyrchu'r realiti sy'n wynebu ffermwyr. Roedd penderfyniadau ynghylch newidiadau yn y gorffennol a'r dyfodol yn cael eu siapia gan yr angen i ymateb i'r farchnad, polisi, y tywydd, argaeledd llafur ac amgylchiadau personol/teuluol ar yr un pryd. Roedd agwedd agored tuag at newid yn dod i'r amlwg fel thema gyffredin.

Roedd cydnabod yr angen i newid yn dod i'r amlwg fel ffactor pwysig ar draws y gweithdai. Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn amlwg wedi gweld ac yn cydnabod newid yn yr hinsawdd, roedd lleiafrif bach yn ansicr. Roedd cyfranogwyr hefyd yn nodi amheuaeth ehangach ynglŷn â newid yn yr hinsawdd o fewn y sector, a oedd yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag addasu, er bod rhai'n teimlo bod ymwybyddiaeth wedi cynyddu dros amser –

“Rydym ni wedi ei weld [y newid yn yr hinsawdd] ers blynyddoedd, mae llawer ohonom yn amharod i gyfaddef hynny, ond i'r rhai sy'n fodlon gwneud hynny, rydym ni'n ceisio diogelu ein busnesau at y dyfodol. Rydym ni'n eistedd yma heno oherwydd ein bod ni eisiau ffermio yn y dyfodol ac rydym ni'n fodlon edrych ar bob cyfle a fydd yn ein gwneud ni mor wydn â phosibl.” [C]

“Rwy'n mynd yn amheus iawn gyda'r agenda newid yn yr hinsawdd, i ddweud y gwir. Rwy'n gallu gweld gwahaniaeth yn y tywydd, ond pwy sydd i ddweud mai nid patrwm yw hyn? Felly, er ei bod hi'n wlypach ac nad ydym yn cael gaeafau oer, gallai fod yn hollol wahanol ymhen deng mlynedd. Pwy a wŷr ynde?” [U]

Ar yr un pryd, roedd tipyn o rwystredigaeth gyda'r naratif newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol, yn enwedig canfyddiadau bod y sector yn cael ei ystyried fel 'bwch dihangol' i raddau. Nid oedd mynegiant gwyddonol a pholisi bob amser yn cael eu croesawu na'n cael eu hystyried yn ystyrlon yn ymarferol. Yn hytrach, roedd llawer o ffermwyr yn mynegi ffafiaeth dros ganolbwyntio ar fesurau addasu ymarferol, yn enwedig lle mae'r rhain yn cyd-fynd â hyfywedd a phroffidioldeb y busnes.

Cafwyd pryderon gan rai cyfranogwyr nad yw'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei flaenoriaethu'n eang o fewn y diwydiant amaeth yng Nghymru, gyda meddylfryd “busnes fel arfer” yn gweithredu fel rhwystr rhag addasu. Wrth edrych ar sut i gyfathrebu ynglŷn

â'r newid yn yr hinsawdd, daeth ychydig o wersi allweddol i'r amlwg, a grynhowyd yn dda yn ystod y gweithdy i'r diwydiant –

“Rwy’n credu weithiau efallai ei fod yn ymwneud â symleiddio’r iaith. Rydym ni’n wael iawn, rydym ni’n defnyddio geiriau fel trawsnewid, pontio, ac mae’n awgrymu bod ffermwyr yn gwneud popeth o’i le nawr, ond mewn gwirionedd, pe baem yn ofalus gyda’r iaith, mae’n bosibl y byddem yn cael llawer mwy o ymgysylltiad yn y math yma o feysydd.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

“Y syniad o ‘enillion er budd pawb’... mae’n ei wneud i deimlo’n llawer mwy fel rhywbeth o’r gwaelod i fyny yn hytrach nag o’r brig i lawr... dyna pam rwy’n cyfrannu at y sgwrs ynghylch gwytnwch busnes. Ac rwy’n credu bod hynny’n well, gan ein bod ni i gyd eisiau hynny fel ffermwyr. Mae’n golygu gwahanol bethau i wahanol ffermwyr, ond yn y bôn, rydym ni eisiau... gwytnwch a chynaliadwyedd.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

I rai, cafwyd ymdeimlad bod angen manteisio ar rai cyfleoedd yn well –

“Rwy’n credu bod gennym ni fantais enfawr o’i gymharu â gwledydd eraill, sef ein bod ni’n dal i allu tyfu glaswellt. Mae angen i ni gefnogi ein diwydiant ac mae’n rhaid i ni gadw’r niferoedd yn uchel, oherwydd rwy’n credu ein bod mewn lle da i gynhyrchu... rwy’n credu bod gennym ni’r hinsawdd yma i wneud hynny.” [U]

4.3.5 Pryderon ar gyfer y dyfodol a rhwystrau rhag newid

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn rhagweld y byddai’r pwysau hinsoddol presennol yn parhau i ddwysáu, gan lywio cynlluniau at y dyfodol fel yr amlinellir isod. Mae Tabl 5 yn crynhoi’r prif feysydd sy’n peri pryder a’r rhwystrau rhag cyflwyno newid yn y dyfodol.

Tabl 5. Prif feysydd pryder a rhwystrau at y dyfodol.

Meysydd pryder/rhwysterau	Effaith	Dyfyniad
Mwy o berygl clefydau	Creu ymdeimlad o ansicrwydd – sut i baratoi a rheoli. Mae’n rhaid i ffermwyr fod yn fwy sylwgar ac ymatebol	<i>“Rwy’n credu y byddwn ni’n gweld mwy o firsau – e.e., y Tafod Glas, Schmallerberg, pethau nad oes modd i ni eu rheoli. O ran llyngyr a llyngyr yr iau, mae angen i ni sicrhau ein bod yn trin anifeiliaid yn briodol er mwyn osgoi ymwrthedd.”</i> [C]
Ansefydlogrwydd farchnad	y Ansicrwydd – newidiadau mwy yn anoddach i’w cyflawni, gan arwain ffermwyr i ganolbwyntio yn hytrach ar wytnwch o ddydd i ddydd trwy	<i>“Rwy’n credu bod yr hyn yr wyf i eisiau ei wneud a’r hyn y byddaf yn ei wneud yn edrych yn wahanol iawn ar hyn o bryd.”</i>

	enillion effeithlonrwydd graddol. Eisiau gwell dealltwriaeth o'r farchnad	<i>Ansefydlogrwydd y farchnad."</i> [C]
Costau cynyddol	Yn gysylltiedig ag ansicrwydd ar y farchnad – costau popeth yn cynyddu	<i>"Mae ffensys trydan, cafnau dŵr a'r holl bethau sy'n gallu helpu eich system ffermio'n costio arian, ac mae'r costau'n cynyddu bob blwyddyn, waeth beth sydd gennych dan sylw o ran seilwaith."</i> [U]
Prinder llafur	Disgwylir y bydd yn gwaethgu yn y dyfodol – yn aml yn gysylltiedig â thrafodaethau ynghylch yr angen i weithio oddi ar y fferm ac olyniaeth	<i>"Mae yna brinder staff o fewn y diwydiant. Mae'n anodd dod o hyd i fechgyn neu ferched ifanc sydd eisiau dod i mewn i'r diwydiant i wneud y gwaith yma."</i> [C]
Pwysau rheoleiddio a pholisi	Ansicrwydd – roedd llawer yn teimlo y byddai mabwysiadu dull mwy annibynnol a lleihau'r ddibyniaeth ar gymorthdaliadau'n helpu i fynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn a chaniatáu mwy o hyblygrwydd at y dyfodol (e.e., heb ofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy). Roedd hyn yn amlwg yn gysylltiedig â thrywydd polisi ehangach a safbwynt y llywodraeth ar gynhyrchu bwyd. Trafodwyd hefyd y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a'u heffaith ar gyfraddau stocio/systemau mewn perthynas â dyheadau ar gyfer dulliau ffermio adfywiol. Roedd cyfyngiadau cynllunio hefyd yn cael eu hystyried yn rhwystr, gyda rhai'n	<i>"Mae hynny'n bryder i mi gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. I ble mae'n mynd? Oherwydd mae llawer o ffermwr da eisoes yn gwneud hynny beth bynnag, ac rydych chi'n dechrau ymrwymo eich hun... A yw hynny'n mynd i'ch cyfyngu o ran yr hyn y gallwch ei wneud gyda'ch fferm eich hun? Dyna fy mhryder i. Rydym ni eisoes yn ceisio gwneud ein gorau. Mae pawb yn yr ystafell hon wedi amlygu ein bod eisoes yn gwneud ein gorau. Ond os ydych chi'n dechrau bod yn rhan o hynny, mae'r llywodraeth yn dal ei gafael ynoch chi."</i> [U] <i>"Rydw i'n ymwybodol iawn o lawer o ffermydd sydd naill ai wedi derbyn grantiau neu wedi cael cynnig grantiau ar gyfer pethau fel gorchuddio neu</i>

	mynegi eu barn bod diffyg meddwl cydlynol rhwng gwahanol adrannau/sefydliadau gorfodi. Roedd allgáu digidol yn bryder i nifer – gan effeithio ar allu llawer o ffermwyr i ymgysylltu’n llwyddiannus gyda chynlluniau, grantiau a gofynion rheoleiddio	<i>gynnal a chadw storfeydd slyri, addasu eu siediau da byw ac ati, ond mae’r caniatâd cynllunio’n cael ei wrthod gan adrannau eraill o’r llywodraeth a sefydliadau gan eu bod yn teimlo y byddent yn llygru mwy ar yr amgylchedd. Ond mae angen cysylltu pethau’n well a sicrhau nad yw’r rhwystrau cynllunio hynny’n atal ffermwyr rhag gallu addasu.” [Dyfyniad gan y diwydiant]</i>
Goruchafiaeth archfarchnadoedd, problemau gyda’r gadwyn gyflenwi a newidiadau strwythurol	Yn gwaethygu gyda phryderon blaenorol, colli seilwaith allweddol – e.e., lladd-dai yn effeithio ar werthiannau uniongyrchol. Mynegi rhwystredigaeth gydag archfarchnadoedd (yn enwedig o ystyried prisiau llaeth ar hyn o bryd – Chwefror 2026), ond ceir teimlad bod capasiti cyfranogwyr i newid o fewn y system bresennol yn brin	<i>“Mae angen mwy o reoleiddio o ran ble’r ydym ni’n gwerthu ein cynnyrch mewn gwirionedd, yn hytrach na rheoleiddio’r ffermwr. Rwy’n credu bod angen i’r rheoleiddio fod ar y cam nesaf, mewn gwirionedd, a thargedu’r archfarchnadoedd hynny” [Y]</i>
Canfyddiad a dylanwad y cyfryngau	Diffyg dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch cynhyrchu bwyd a ffermio – potensial heb ei archwilio i sicrhau mwy o ymgysylltiad a chymorth, gan ei fod wedi cael ei awgrymu bod diddordeb y cyhoedd yn cynyddu ac mae ymatebion yn aml yn gadarnhaol pan fo ffermio’n cael ei gyflwyno mewn ffyrdd hygyrch a pherthnasol. Pryderon ynghylch cynrychiolaeth yn y cyfryngau mewn	<i>“Mae’r diwydiant yn teimlo ei fod yn cael ei orlwytho. Ac mae’r diwydiant yn teimlo ei fod yn cael y bai am bopeth... dyna ganfyddiad ffermwyr, ein bod yn cael y bai am bopeth... Felly ceisio camu i ffwrdd o’r diwylliant hwnnw a dweud... mae ffermwyr yn rhan o’r ateb, nid yn rhan o’r broblem. A rhywfaint o negeseuon mwy cadarnhaol... codi proffil y diwydiant.” [Dyfyniad gan y diwydiant]</i>

	perthynas â thrafodaethau am newid yn yr hinsawdd yn arwain at ddiffyg ymgysylltiad gan ffermwyr	
Y genhedlaeth nesaf a newidiadau strwythurol yn y sector	Yr her o ddod â'r genhedlaeth nesaf i mewn, i greu cyfleoedd i wneud y diwydiant yn fwy deniadol a hyfyw. Uno ffermydd (pegynnu mewn unedau ffermio) a thrawsnewidiadau llafur/cymdeithasol	<i>“Ceisio sicrhau ein bod yn gwarchod y gymuned honno. Mae gennym ni lawer o aelodau staff ifanc hefyd, felly dyna’r penderfyniad arall sy’n ysgogi cynnydd yw bod angen mwy arnynt er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu. Nid ydym eisiau eu colli. Felly mae angen i ni wneud rhywbeth er mwyn eu cadw.” [C]</i> <i>“Mae gennym ni gyfrifoldeb i gynnal yr agwedd gymdeithasol yn ein hardaloedd cefn gwlad a’n cymunedau... byddwn yn gweld unedau enfawr, tirfeddianwyr mawr, busnesau mawr yn gwrthio costau cynhyrchu i lawr.” [Dyfyniad gan y diwydiant]</i>

4.3.6 Y broses o wneud penderfyniadau

Mae’r dystiolaeth a gyflwynir yma’n dangos bod y ffactorau sy’n arwain penderfyniadau a newid ymddygiad yn aml yn rhyng-gysylltiedig, yn cwmpasu ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Er bod pwyslais cynyddol ar ffermwyr yn gweithredu â meddylfryd busnes, mae ffactorau economaidd yn cael eu pwysoli’n gyson ochr yn ochr â ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol sy’n dylanwadu ar addasrwydd mabwysiadu arferion penodol. Ar draws y corff tystiolaeth hwn, mae cyfyngiadau hinsoddol cynyddol yn ymddangos fel dylanwad sylweddol ar benderfyniadau ffermwyr a’r gallu i weithredu.

Roedd trafodaethau yn y gweithdai hefyd yn datgelu mewnwelediad defnyddiol ar y broses newid. Mae ffermwyr yn aml yn cyflwyno newid pan fo rhywbeth yn mynd o’i le neu’n groes i gynlluniau, neu ddigwyddiadau nad oeddent wedi’u rhagweld sy’n gofyn am ailasesu eu systemau. Mae sefyllfaoedd heriol yn cael eu defnyddio’n aml fel cyfleoedd i addasu ac arbrofi â dulliau newydd. Gall newid hefyd ddigwydd yn raddol dros amser,

wedi'i siapio gan amgylchiadau sy'n esblygu ac arbrofi cronnus. Un thema gyffredin ar draws y gweithdai oedd ymrwymiad i welliant parhaus, a chynnal arbrofion bychain, cost isel. Mae'r mewnwlediadau hyn yn atgyfnerthu arsylwadau blaenorol yn ymwneud â chapasiti cynhenid ffermwyr i addasu –

“Ymatebol. Ffermio'r hyn yr ydym ni'n ei weld gyda phroblemau. Ie. Ymateb i'r broblem ddiweddaraf a chanfod ffordd o'i datrys.” [R]

“Weithiau'n mynd allan ac yn aml yn cael ein harwain gan y tywydd. Mae'n rhaid i rywbeth newid. Mae'n rhaid i chi wneud penderfyniadau eithaf cyflym ar adegau o ran sut mae'r newid hwnnw'n mynd i gael ei wneud, ond hefyd i sicrhau eich bod yn ystyried yr holl effeithiau dilynol a'r hyn maen nhw'n ei olygu ar gyfer eich busnes ac ymhellach i'r dyfodol.” [U]

O ran y wybodaeth a ddefnyddir i arwain penderfyniadau (yn y gorffennol, nawr ac at y dyfodol), roedd mewnwlediadau'n datgelu bod cyfran fawr o'r cyfranogwyr wedi bod yn rhan o raglen Cyswllt Ffermio, yn aml yn aelodau o grwpiau trafod, neu'n ymgysylltu â'u cymheiriaid mewn ffyrdd eraill i gasglu syniadau.

“Cyswllt Ffermio. Maen nhw'n rhan fawr o bethau. Mae Cyswllt Ffermio wedi bod o fudd mawr i ni fel busnes dros y blynyddoedd. Rydym ni wedi cwblhau cyrsiau ac wedi cael pobl i ddod allan i'n helpu. Mae rhaglen Cyswllt Ffermio, fel rhywun sy'n ei defnyddio, wedi bod o fudd mawr i'n busnes. Mae wedi symud ein busnes yn ei flaen.” [C]

“Grwpiau trafod, rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn, gan eu bod nhw'n gymheiriaid. Maen nhw'n bobl, nid rhywun sy'n eistedd mewn swyddfa'n meddwl, 'o am syniad da'. Mae'r bobl yma'n gwneud hyn go iawn.” [C]

Roedd llawer o gyfranogwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau teuluol o ran sicrhau bod penderfyniadau'n cyd-fynd â'u hanghenion. Roedd meibion neu ferched a oedd yn dychwelyd i'r fferm yn aml yn cyflwyno syniadau newydd, ac roedd llawer o ymatebwyr yn disgrifio'r her o gydbwyso blaenoriaethau a safbwyntiau gwahanol genedlaethau.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â'r angen am addasiadau penodol ar gyfer y fferm, roedd llawer o gyfranogwyr yn pwysleisio ei bod yn bwysig i ffermwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain. Roedd defnyddio arbenigedd allanol megis milfeddygon ac ymgynghorwyr hefyd yn cael ei ystyried yn werthfawr, gyda rhai trafodaethau ynghylch pryd mae cyngor y telir amdano'n cynrychioli gwerth am arian. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amheuaeth ymysg rhai o ran ymddiried mewn 'arbenigwyr', yn ogystal â thensiynau ynghylch cyngor o'r brig i lawr a chyfarwyddiadau polisi.

Roedd eraill yn sôn am ddarllen am wahanol ddulliau yn y wasg amaethyddol ac mewn ffynonellau ar-lein, yn ogystal â gwrando ar bodlediadau a mynychu digwyddiadau'r

diwydiant, gan gynnwys digwyddiadau ar ffermydd. Roedd technoleg yn cael ei chrybwyll yn aml fel adnodd i helpu i wneud penderfyniadau –

“Defnyddio mwy o dechnoleg. Rydym ni’n defnyddio tipyn ar dechnoleg nawr ein hunain, EID. Rydym ni’n defnyddio EID cymaint â phosibl, felly cofnodi data, boed hynny’n bwysau (stoc), nodweddion mamol y famog... Rydym ni’n cofnodi popeth er mwyn gallu edrych yn ôl ar ddata – os nad yw’r fuwch neu’r ddafad honno’n perfformio, mae’n rhaid ei gwaredu.” [U]

Mae’n bwysig creu cysylltiad pendant rhwng gwybodaeth am y ffordd y mae ffermwyr yn dysgu a datblygu syniadau’n benodol a’r drafodaeth flaenorol ynghylch prosesau penderfynu a newid, yn enwedig wrth ddeall sut y gall mynediad at syniadau a gwybodaeth alluogi neu ysgogi newid. Nodwyd ‘norm’ sy’n dod i’r amlwg ynghylch ceisio cyngor, wedi’i hwyluso gan fwy o argaeledd. Fodd bynnag, daeth y rhan fwyaf o’r sylwadau hyn gan ffermwyr ‘C’ ac ‘U’, a chredwyd nad yw cyfran o’r gymuned ffermio’n ymgysylltu ar hyn o bryd –

“Rwy’n credu, er gwaetha’r gwahanol gyrff... sy’n cyflwyno’r wybodaeth... mae cyfran o ffermwyr nad ydym byth yn ymgysylltu â nhw, nad ydynt yn cymryd rhan ac nad ydynt yn derbyn y wybodaeth honno.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

4.3.7 Gofynion ar gyfer cymorth pellach yn y dyfodol

Fel yr amlinellwyd drwy gydol yr adran ganfyddiadau, bu llawer o gyfranogwyr yn trafod y grantiau a’r cynlluniau maen nhw’n eu defnyddio ar hyn o bryd, ochr yn ochr â’r heriau sy’n gysylltiedig â’r mecanweithiau ariannu hyn, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2026, yn ehangach. Mae’r myfyrdodau hyn yn cyfeirio at feysydd lle mae ffermwyr yn teimlo y bydd angen cymorth ychwanegol at y dyfodol i’w galluogi i wneud newidiadau angenrheidiol ac arfaethedig ar y fferm. Yn yr un modd, yn yr adran sy’n trafod pryderon a rhwystrau at y dyfodol (Adran 2.3.5), roedd cyfranogwyr yn amlygu ystod o gyfyngiadau, gan gynnwys materion rheoleiddio, argaeledd llafur ac annog newydd-ddyfodiaid. Trwy gydol y gweithdai, roedd cyfranogwyr yn aml yn atgyfnerthu’r farn bod dull ‘un opsiwn addas i bawb’ yn anaddas. Gyda’i gilydd, mae’r canfyddiadau hyn yn ategu’r angen am gymorth pellach wedi’i dargedu yn y dyfodol.

Bu rhai cyfranogwyr yn mynegi eu barn ar gymorth pellach penodol a fyddai’n ddefnyddiol at y dyfodol –

“Ceir dealltwriaeth ardderchog o gyflwr delfrydol y pridd, ond ceir anawsterau o ran ariannu’r buddsoddiad sydd ei angen i gywiro’r canlyniadau pridd... Ni allwn fforddio ei gywiro... ac mae calch yn fewnbwn cymharol rad, ond os oes angen 3,400 tunnell ar ffermwr er mwyn cywiro’r lefelau ar ei dir, nid yw’r arian, neu’r arian gwario, ganddo i wneud hynny. Felly, mae hynny’n rhywbeth sydd angen i ni ei ystyried, rwy’n credu.” [Dyfyniad gan y diwydiant]

“(Mewn cyfarfod diweddar) roedd yr holl ffermwyr a oedd yn bresennol yn nodi’r un peth... i gael rhyw fath o gylch o beiriannau... rhannu’r costau... edrych ar bethau fel aradr isbridd a pheiriannau awyru a phethau felly. Ac yna’r system o drin y tir cyn lleied â phosibl yr oeddem yn ei drafod, roedd y ffermwyr o Sir Benfro ar ffermydd llai yn dweud nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hyn. A oes unrhyw ffordd o gwmpas hynny?” [U]

Nododd rhai cyfranogwyr hefyd yr angen am gymorth ychwanegol mewn perthynas â rheoli’r amgylchedd yn y dyfodol –

“Colli’r wybodaeth a’r sgiliau mewn perthynas ag amgylchedd y fferm dros y blynyddoedd diwethaf mewn gwirionedd o ganlyniad i’r angen i ddatblygu ar raddfa a’r cyfyngiadau amser ar gyfer rheoli coetiroedd, gwrychoedd neu beth bynnag. Ydi, mae wedi bod yn digwydd drwy gynlluniau, ond mae hynny wedi digwydd erioed, a dyna lle mae’r contractwyr wedi bod mor werthfawr, ond yn y gorffennol, byddai gan y ffermwr y wybodaeth, yr amser a’r sgiliau i wneud hynny. Mae wedi mynd nawr i raddau oherwydd rheidrwydd.” [C]

5. Casgliadau a Goblygiadau

Bu'r Astudiaeth Addasu i'r Hinsawdd ym Myd Amaeth – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn archwilio sut mae'r amgylchedd sy'n cael ei ffermio yng Nghymru, ac o ganlyniad, arferion ffermio, wedi newid dros amser. Yn ogystal, edrychwyd ar y ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau hyn, a sut mae ffermwyr yn ymateb ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun addasu i'r hinsawdd. Roedd rhanddeiliaid amaethyddol (ffermwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant) yng Nghymru yn dangos ymwybyddiaeth gref o'r newid yn yr hinsawdd, ac roeddent yn mynd ati'n weithredol i addasu eu systemau ffermio mewn ymateb i newidiadau hinsoddol yn ogystal â ffactorau eraill sy'n dylanwadu. Nodwyd newidiadau mewn amodau hinsoddol dros amser, gan gynnwys gwahanol batrymau glawiad, mwy o amrywioldeb yn y tywydd a symudiad yn y tymhorau. Roedd gan gyfranogwyr ymwybyddiaeth gref o'r goblygiadau ymarferol ar eu harferion ffermio a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd. Er bod yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y newid yn yr hinsawdd, roedd ystod o sbardunau newid ychwanegol ar gyfer addasu ar y fferm hefyd yn cael eu harchwilio. Bu cyfranogwyr hefyd yn trafod rhagfynegiadau at y dyfodol yn fanwl o safbwynt yr hinsawdd, a buont yn edrych ar eu perthnasedd disgwylidig ar gyfer cynhyrchiant, rheoli tir, seilwaith a gwytnwch ffermydd.

Fel astudiaeth archwiliadol fechan sy'n cynnig mewnwelediadau i ganfyddiad is-set benodol o ffermwyr, dylid dehongli'r canfyddiadau ochr yn ochr â chorff ehangach o waith ymchwil ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau ymhlith rhanddeiliaid ledled Cymru yn y gwaith ymchwil hwn yn dangos bod cyfran o'r sector amaethyddiaeth yn dangos elfen o barodrwydd i ymateb i heriau'r hinsawdd. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod fframweithiau polisi, gwasanaethau cynghori a mecanweithiau cymorth ariannol yn cyd-fynd yn dda â'r realiti ar lawr gwlad, ac yn adeiladu ar ymddygiadau addasol presennol yn hytrach na mabwysiadu dull sy'n addas i bawb.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i sylfaen dystiolaeth addasu i'r hinsawdd yng Nghymru ac yn cyflwyno goblygiadau clir o safbwynt datblygiad polisi amaethyddol yn y dyfodol. Mae'r trafodaethau'n pwysleisio'r angen am bolisiau a fydd yn cefnogi mynd ati'n rhagweithiol i addasu i'r hinsawdd ac yn cydnabod amrywiaeth rhwng systemau ffermio yng Nghymru. Trwy wneud hyn, gallai canlyniadau'r gwaith hwn helpu i atgyfnerthu gwytnwch systemau ffermio yng Nghymru gan hefyd gefnogi cyflawni gwaith addasu i'r hinsawdd yng Nghymru at y dyfodol.

6. Cyfeiriadau

- Bradley, D., Hill, B., O'Prey, L., Griffiths, E. a Williams, E. (2021). Deall cymhellion ffermwyr: Ffermydd Bach a Bach lawn, Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf>. Cyrchwyd 13 Mai 2026.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative research in psychology, 3(2), p.77-101.
- Daniele, B.C. (2024). The farm succession effect on farmers' management choices. Land use policy, 137, p.107014.
- Esri (n.d.). World Imagery (Esri Satellite) [GIS web tile service]. ESRI. https://services.arcgisonline.com/ArcGIS/rest/services/World_Imagery/MapServer. Cyrchwyd 19 Mai 2026.
- Evans, F., Gibbons, J., Chadwick, D., Gittins, H., Williams, P. and Wynne-Jones, S. (2025). "It's 'common-sense' farming": Exploring farmers' decision-making and behaviours towards adopting circular agricultural practices. Journal of Rural Studies, 120, p.103844.
- Jebari, A., Oyetunde-Usman, Z., McAuliffe, G.A., Chivers, C.A. a Collins, A.L. (2024). Willingness to adopt green house gas mitigation measures: Agricultural land managers in the United Kingdom. Plos one, 19(7), p.e0306443.
- Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G. and Fell, D. (2014). Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar ran Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2025). Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2025/7/1/1753693517/sustainable-farming-scheme-2026-scheme-description.pdf>. Cyrchwyd 13 Mai 2026.
- Llywodraeth Cymru (2024). Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024. Ar gael yn: [Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 | LLYW.CYMRU](#) Cyrchwyd 13 Mai 2026.
- Llywodraeth Cymru (2023). Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Ar gael yn: [Deddf Amaethyddiaeth \(Cymru\) 2023 Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy](#). Cyrchwyd 13 Mai 2026.
- Llywodraeth Cymru (2019). Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd. Ar gael yn: [Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd | LLYW.CYMRU](#). Cyrchwyd 28 Ebrill 2026.

McNicol, L.C., Wynne-Jones, S., Chadwick, D and Williams, A.P. (forthcoming). Beyond Net Zero: Understanding Motivations and Barriers to the Adoption of Greenhouse Gas Mitigation and Sequestration Measures Amongst UK Beef and Sheep Farms. *Journal of Rural Studies*.

Rose, D.C., Keating, C. and Morris, C. (2018). Understanding how to influence farmers' decision-making behaviour: a social science literature review. Ar gael yn: https://ueaeprints.uea.ac.uk/id/eprint/67271/1/FarmersDecisionMaking_2018_09_18.pdf. Cyrchwyd 13 Mai 2026.

Simmonds, P., Maye, D. and Ingram, J. (2025). Ruminant livestock and climate change: critical discourse moments in mainstream and farming sector news media. *Agriculture and Human Values*, 42(2), tud.945-964.

Šūmane, S., Kunda, I., Knickel, K., Strauss, A., Tisenkopfs, T., des los Rios, I., Rivera, M., Chebach, T. and Ashkenazy, A. (2018). Local and farmers' knowledge matters! How integrating informal and formal knowledge enhances sustainable and resilient agriculture. *Journal of Rural Studies*, 59, tud.232-241.

Thyer, J., Morrison-Rees, S., Scully, S. and Caskie, P. (2024). "Investigation of the differences in characteristics of Welsh farming households with and without off-farm income". *International Journal of Population Data Science*, 9(5).

UKCCC (2023a). Adapting to climate change – Progress in Wales. Ar gael yn: <https://www.theccc.org.uk/publication/adapting-to-climate-change-progress-in-wales/>. Cyrchwyd 28 Ebrill 2026.

UKCCC (2023b). Investment for a well-adapted UK. Ar gael yn: <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Investment-for-a-well-adapted-UK-CCC.pdf>. Cyrchwyd 13 Mai 2026.

Wynne-Jones, S. Williams, C., Verfuerth, C. (2023). How to encourage tree planting and management in Wales. Briff Polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ymchwil y Senedd (2022). Y Sector Ffermio yng Nghymru - Papur briffio. Ar gael yn: [22-47-y-sector-ffermio-yng-nghymru.pdf](#). Cyrchwyd 13 Mai 2026.

Atodiadau

Atodiad A. Cwestiynau model segment Llywodraeth Cymru.

- Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn cynrychioli ‘ddim yn bwysig o gwbl’ a 5 yn cynrychioli ‘pwysig iawn’), pa mor bwysig yw siarad gyda ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chynghor i chi’n bersonol?
- Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn cynrychioli ‘dim diddordeb o gwbl’ a 5 yn cynrychioli ‘diddordeb mawr iawn’), faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn cael mynediad at wybodaeth neu gynghor ynglŷn â ffermio ar y we?
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Mae sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach i mi na gwneud yr elw gorau posibl ar fy fferm’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Dylai pob fferm wneud pob ymdrech i fod mor gynaliadwy â phosibl o safbwynt yr amgylchedd’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Mae cydweithio gyda ffermwyr eraill yn helpu wrth redeg y fferm’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Rydw i bob amser yn neilltuo amser i gymdeithasu gyda ffermwyr eraill’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Rydw i bob amser yn ceisio dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallaf eu rhoi ar waith ar fy fferm’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Rwy’n awyddus i roi technolegau newydd ar waith ar fy fferm wrth iddynt ddod ar gael’
- I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad – ‘Rydw i’n hapus i gymryd cynghor ynghylch rheoli’r amgylchedd naturiol ar fy fferm’